

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)	STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)
DYDD MAWRTH, 22 MEHEFIN 2021 AM 2.00 O'R GLOCH	TUESDAY, 22 JUNE 2021 AT 2.00 PM
CYFARFOD RHITHWIR WEDI'I FFRYDIO'N FYW	VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING
Swyddog Pwyllgor	Shirley Cooke 01248 752514 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Bryan Owen, Dylan Rees,
Alun Roberts

Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Sue Altree (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Parch/Rev Debra Stammers (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Parch/Rev Jim Clarke (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Elaine Green (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Gerald Hewitson (Crynwyr Môn/Anglesey Quakers)

Athrawon/Teachers

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern),
Owain Roberts (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members

Rheinallt Thomas

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2021.

3 **RHANNU GWYBODAETH GYDAG ATHRAWON AR LWYFAN ELECTRONIG**

Derbyn adroddiad llafar gan Mr Owen Davies, Uwch Reolwr Cynradd, Adran Addysg ar yr adnoddau Astudiaethau Crefyddol sydd ar gael ar wefan CBAC isod:-

<https://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rld=4287&langChange=cy-GB>

4 **CYFLWYNO GWAITH PANEL GWEITHREDOL CYSAG YSGOLION**

Derbyn diweddariad llafar ynglŷn â'r uchod, a chyfle i aelodau'r panel gyfarfod Mrs Helen Roberts, aelod proffesiynol o Banel Gweithredol CYSAG ysgolion.

5 **DIWEDDARIAD GAN GLERC Y CYSAG AR YMGYNGHORIADAU LLYWODRAETH CYMRU** (Tudalennau 7 - 54)

Clerc y CYSAG i ddarparu diweddariad ar yr Ymgynghoriadau a ganlyn gan Lywodraeth Cymru:-

- Cwricwlwm i Gymru – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (canllawiau ynghlwm).

6 **DIWEDDARIAD GAN GLERC Y CYSAG AR FATERION ADDYSG GREFYDDOL LLEOL A CHENEDLAETHOL**

- Cydweithio rhwng ysgolion a GwE mewn perthynas â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.
- Cyrsiau sydd ar gael i ysgolion ynghylch trosedd casineb.

7 **CYFARFOD Y PANEL YMGYNGHOROL CENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL (NAPFRE) AR 15 MEHEFIN 2021** (Tudalennau 55 - 58)

Clerc y CYSAG i gyflwyno diweddariad.

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 59 - 84)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 23

Mawrth 2021, er gwybodaeth.

Cafwyd diweddariad gan Mr Rheinallt Thomas ynghylch materion a godwyd gan Gymdeithas CYSAGau Cymru yng nghyfarfod diwethaf CYSAG Ynys Môn (Eitem 8 yn y cofnodion).

Y Cadeirydd a'r Clerc i gyflwyno diweddariad i'r CYSAG yn dilyn cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021.

9 UNRHYW FATER ARALL

Cynllun Newydd y Mudiad Meithrin ar gyfer Darparu Adnoddau Addysg Grefyddol.

10 CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG ddydd Mawrth, 12 Hydref 2021 am 2.00pm.

This page is intentionally left blank

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ar ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 26 Mawrth 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

Yr Awdurdod Addysg

Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery,
Alun Roberts, Dafydd Rhys Thomas

Yr Enwadau Crefyddol

Mrs Elaine Green (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

Cynrychiolwyr yr Athrawon

Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)
Mr Owain Roberts (Ysgol Cybi)
Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes
Dwynwen, Niwbwrch)

Aelod Cyfetholedig

Mr Rheinalt Thomas

WRTH LAW: Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch-reolwr Lles Addysg)
(Ymgynghorydd AG CYSAG)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

YMDDIHEURIADAU: Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)
Mr Gerald Hewitson (Y Crynwyr)
Rev Debra Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig)

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Mrs Elaine Green a Mr Owain Roberts i'w cyfarfod CYSAG cyntaf. Bydd y Cynghorydd Thomas yn cymryd drosodd oddi wrth y Cynghorydd Glyn Haynes. Bydd Mrs Green yn cynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Mr Roberts fydd cynrychiolydd yr athrawon ar CYSAG.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni ddaeth yr un i law.

2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion CYSAG a gynhaliwyd 12 Tachwedd 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:-

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at bryderon a godwyd gan CYSAG yn flaenorol ynghylch maint y gwaith ym Maes Llafur Cytûn AG a dyfodol AG yn 2022. Roedd CBAC wedi cytuno i addasu a lleihau'r llwyth gwaith yn y maes llafur ond, oherwydd y pandemig, roedd y trefniadau hyn wedi'u tynnu'n ôl ac asesiadau disgyblion wedi disodli'r dull addysgu. Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol mai'r teimlad oedd na fyddai llythyr diolch i CBAC yn berthnasol ar hyn o bryd, oherwydd newidiadau mewn arferion addysgu, a diystyriwyd y mater.
- Dywedodd Mrs Heledd Hearn fod yn rhaid i ddisgyblion wneud rhywfaint o waith dan amodau arholiad ac mewn gwersi ar gyfer TGAU a chysiau Safon Uwch. Dywedodd fod Covid-19 wedi rhoi straen ofnadwy ar ddisgyblion a'u dysgu ac y byddai'r hanner tymor nesaf yn heriol iawn iddynt. Dywedodd ymhellach fod athrawon wedi gallu cwblhau'r cysiau TGAU a Safon Uwch yn Ysgol Bodedern.
- Mynegodd CYSAG bryder bod disgyblion wedi colli cymaint o ran eu gwaith ysgol, nid yn unig mewn AG, ond ym mhob pwnc dros y flwyddyn ddiwethaf. Codwyd pryderon hefyd bod rhai disgyblion bellach yn dioddef gan broblemau iechyd meddwl, sydd ar gynnydd, a bod angen rhoi sylw iddynt
- Nodwyd nad oedd sesiynau Gweminar yn berthnasol mwyach ac roeddynt wedi'u canslo.

3. CYFLWYNIAD AR RANNU GWYBODAETH GYDAG ATHRAWON AR LWYFAN ELECTRONIG

Ni thrafodwyd yr eitem hon.

4. CYFLWYNIAD AR WAITH Y PANEL GWEITHREDOL AR GYFER CYSAG YSGOLION

Ni thrafodwyd yr eitem hon.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG MÔN 2019/20

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AG fersiwn derfynol CYSAG am 2019/20 i'w chymeradwyo, a rhoddodd ddarlun o'r pwyntiau a drafodwyd, fel yr amlinellir isod:-

- Cyflwynwyd adroddiadau hunanarfarnu pum ysgol yn ystod y cyfnod cyn y cyfnod clo rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020. Roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd yn onest ac yn effeithiol ac ni chodwyd unrhyw bryderon.
- Roedd gwaith CYSAG y Panel Gweithredol ar gyfer Ysgolion yn parhau i ddatblygu ac roedd angen ei gryfhau ymhellach oherwydd y bu cyfyngu ar y

cynnydd yn sgil y pandemig.

- Codwyd pryderon bod nifer y disgyblion sy'n dilyn AG fel pwnc yn parhau i ostwng. Nodwyd bod 83 o ddisgyblion yn dilyn y cwrs TGAU AG yn 2019/20, 11 yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, enillodd y disgyblion a wnaeth asesiadau TGAU a Safon Uwch yn ystod haf 2020 raddau da yn y pwnc.
- Canmolodd Estyn addysgu AG yn eu harolygiadau o ysgolion Ynys Môn yn ystod 2019/20, ac ni chodwyd unrhyw bryderon.
- Aeth tri aelod o CYSAG i sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion a bu'n rhaid gohirio ymweliadau pellach a drefnwyd oherwydd Covid-19. Awgrymwyd cynnal sesiynau addoli ar y cyd trwy *Microsoft Teams* yn y dyfodol.
- Byddai dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru i gefnogi AG yn newid gyda'r cwricwlwm newydd yn 2022. Nodwyd y byddai disgwyliadau Estyn yn dod yn gliriach i ysgolion o fis Medi ymlaen.
- O ganlyniad i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fynediad i'r cwricwlwm i bob dysgwr ym mis Hydref 2019, byddai gan bob plentyn bellach fynediad llawn i'r cwricwlwm a byddai'n cymryd gwersi AG.
- Byddai AG yn newid i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.
- Codwyd pryderon ynghylch cydymffurfio â GDPR a ph'run a fyddai'n briodol cyflwyno lluniau a fideos o blant yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr ysgol yn gyffredinol, yng nghyfarfodydd CYSAG.
- Mynegodd CYSAG bryder nad oedd unrhyw ddisgyblion wedi dewis astudio AG mewn rhai ysgolion uwchradd. Cadarnhawyd bod darpariaeth yn ei lle i ddisgyblion deithio i ysgolion eraill ar gyfer gwersi AG y tu allan i'w dalgylchoedd. Roedd y system hon yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ac roedd yn gweithio'n dda.
- Roedd angen darparu ar gyfer disgyblion oedd wedi dysgu AG trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd iddynt gael parhau i gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd.
- Cytunwyd y dylid monitro aelodaeth CYSAG a phresenoldeb yn y cyfarfodydd.

Cyfeiriwyd at Gynllun Gweithredu CYSAG a restrai flaenoriaethau, nodau ac amcanion y Pwyllgor hyd at 2022. Byddai gwaith yn parhau i godi proffil CYSAG mewn ysgolion, a chynyddu ymwybyddiaeth y byddai AG yn rhan o Gwricwlwm Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Byddai CYSAG a'r Panel Gweithredol yn canolbwyntio ar y cwricwlwm newydd, yn enwedig ar sut oedd ysgolion yn addasu ac yn gweithio'n thematig yn ystod y cyfnod pontio o Flwyddyn 6 i 7. Nodwyd bod yr amcan i greu llwyfan i rannu adnoddau ac arfer da o fewn AG wedi ei gyflawni gan Mr Owen Davies.

Dangosodd aelodau o CYSAG eu gwerthfawrogiad gan ddiolch i'r Ymgynghorydd AG am ei gwaith rhagorol yn paratoi'r Adroddiad Blynyddol ac i'r Cadeirydd am ei Grynodedb rhagorol fel Cadeirydd.

PENDERFYNWYD:-

- **Derbyn adroddiad blynyddol 2019/20 CYSAG.**
- **Monitro presenoldeb mewn cyfarfodydd CYSAG yn ystod y flwyddyn i ddod**
- **Cytuno mai dim ond unigolion sydd wedi paratoi cyflwyniad / adroddiad hunanarfarnu ddylai gael caniatâd i ddangos lluniau a fideos o blant yn eu hysgolion, ac mewn cyfarfod CYSAG yn unig.**

6. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL – ADRODDIADAU HUNANARFARNU

Cyflwynwyd adroddiad hunanarfarnu AG Ysgol Gynradd Kingsland er gwybodaeth.

Nododd CYSAG fod y Pennaeth wedi nodi yn ei adroddiad hunanarfarnu bod safonau yn Ysgol Kingsland yn dda neu'n ddigonol. Teimlai CYSAG ei fod wedi bod yn eithaf hunanfeirniadol yn ei sylwadau, gan fod yr adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn ddiddorol ac yn rhoi blas o'r hyn oedd yn digwydd yn yr ysgol mewn perthynas ag AG.

Dymunodd y Pwyllgor fynegi eu gwerthfawrogiad i Mr Rhys Hearn am ei adroddiad cynhwysfawr.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys Adroddiad Hunanarfarnu Ysgol Kingsland.**
- **Bod yr Ymgynghorydd AG yn rhoi adborth i Mr Rhys Hearn ac yn cyfleu iddo werthfawrogiad CYSAG am ei waith.**

7. CANLYNIADAU TGAU A LEFEL A 2021

Dywedodd yr Ymgynghorydd AG y byddai athrawon mewn ysgolion unigol yn penderfynu ar ganlyniadau TGAU a Safon Uwch eleni. Byddai athrawon yn asesu ac yn marcio gwaith eu disgyblion a byddai'r canlyniadau ar gael ym mis Mehefin. Byddai gan rieni oedd yn anffodlon â graddau eu plant fis i apelio yn erbyn penderfyniad, cyn y dyfernid gradd derfynol ym mis Awst 2021.

Codwyd pryderon ynghylch yr effaith y byddai'r dull newydd hwn o addysgu yn ei chael ar athrawon oedd, ar hyn o bryd, yn gweithio dan bwysau cynyddol ac yn wynebu hanner tymor heriol iawn.

Dywedodd Mrs Heledd Hearn fod tri o'r athrawon yn ysgolion Ynys Môn yn dysgu TGAU, Lefel A a Chyfnod Allweddol 3. Dywedodd fod athrawon o'r pum ysgol uwchradd wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd a gwneud yr un faint o waith dan amodau arholiad, yn yr ystafell ddosbarth ac yn y cartref.

Nodwyd, o ran canlyniadau arholiadau AG y llynedd yn Ysgol Bodedern, fod disgyblion yn hapus â'u canlyniadau.

8. **CYMDEITHAS CYSAG CYMRU (CCYSAGauC)**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod o a'r Ymgynghorydd AG wedi bod yng nghyfarfod rhithwir CCYSAGauC 23 Mawrth 2021. Cyfeiriodd at y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a nododd fod y Bil wedi'i basio gan Lywodraeth Cymru, a'i fod yn aros am Gydsyniad Brenhinol.

Rhoddodd Mr Rheinallt Thomas, oedd hefyd yn bresennol yng nghyfarfod y CCYSAGauC, y wybodaeth ddiweddaraf am yr isod: -

- Gan gyfeirio at y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), canmolodd Mr Thomas y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, am wrando ar adborth ynghylch materion yn ymwneud ag AG yn Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a gweithredu arno ac ymgorffori'r newidiadau hyn yn y Bil.

Dywedodd Mr Thomas ei fod wedi bod i gyfarfod allweddol Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad a'i fod wedi cael gwahoddiad i arwain trafodaeth ar feirniadaeth. Dywedodd iddo fod yn hallt ei feirniadaeth o rai elfennau o'r ymgynghoriad, a gefnogwyd gan bob grŵp gwleidyddol. O gael presenoldeb cryf Eglwysi, Mwslemiaid, Hindwiaid, Siciaid a grwpiau crefyddol eraill, sicrhawyd y rhoddodd y Gweinidog Addysg a Llywodraeth Cymru sylw dyladwy i grefydd, gyda chanlyniad llwyddiannus o safbwynt crefyddol.

Cyfeiriodd Mr Thomas at y newidiadau a ganlyn a fabwysiadwyd 29 Ionawr 2021 ac a gynhwyswyd yn y Bil:-

- Nid yw grwpiau anghrefyddol wedi cael statws grŵp ar wahân yn y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog newydd;
 - Cyfeiriwyd at Gymru, yn hytrach na Phrydain Fawr;
 - Derbyniwyd Cristnogaeth fel y prif grefydd yng Nghymru;
 - Byddai enw CYSAG yn newid, yn ôl pob tebyg i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog
-
- Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddyfodol TGAU AG. Rhoddwyd pwyslais ar sut y gallai AG ddilyn tri llwybr; yn bwnc unigol, pwnc integredig, neu yn rhan o Astudiaethau Cymdeithasol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod AG yn bwnc statudol ac na ddylid ei wanhau.
 - Nodwyd mai camau nesaf CYSAG fyddai addasu i'r newidiadau a rhoi cyfeiriad i ysgolion yn y dyfodol a chofleidio pedair elfen 'beth sy'n bwysig', sy'n sylfaenol i'r cwricwlwm newydd.
 - Cynhelid cyfarfod nesaf CCYSAGauC ym Mhowys 16 Mehefin 2021.

Nodwyd bod y Canllawiau Drafft ar y Fframwaith Addysg Grefyddol wedi'u cyhoeddi, ac y byddid yn ymgynghori arno tan 9 Ebrill 2021. Trafododd CYSAG a ddylent ymateb i'r cynigion drafft cychwynnol ynteu aros nes y cynhelid ymgynghoriad cyhoeddus llawn ym mis Mai, fyddai'n rhoi wyth wythnos i bobl ymateb.

PENDERFYNWYD:-

- **Bod yr Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, ar ran CYSAG, yn nodi y bydd CYSAG Ynys Môn yn ystyried y ddogfen ymgynghori ddrafft gychwynnol ar y Fframwaith AG yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, oherwydd yr amserlen. Bydd ymateb llawn i'r ymgynghoriad yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru ym mis Mai.**
- **Y gall aelodau CYSAG ymateb yn unigol i'r ddogfen ymgynghori gychwynnol cyn cyfarfod CYSAG ym mis Mehefin, pe byddent yn dymuno gwneud hynny.**

9. CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod CYSAG nesaf ddydd Mawrth, 22 Mehefin 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE)

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2021
Camau i'w cymryd: 16 Gorffennaf 2021

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru iaith Crefydd, gwerthoedd a moeseg (RVE)

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm yn llwyddiannus. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi:

- canllawiau ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb
- canllawiau ar gyfer gyrfaedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- canllawiau i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwwm dysgu
- fframwaith cwricwlwm ac asesu i'w fabwysiadu gan leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir
- canllawiau ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am addysg heblaw yn yr ysgol
- canllawiau ar gyfer iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu eich barn ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'u datblygu ar gyfer RVE.

Mae'r canllaw drafft wedi'i ddatblygu gan ymarferwyr trwy broses o gyd-adeiladu sydd wedi'i gefnogi gan arbenigwyr eraill. Mae'r cam adborth hwn yn rhan o'r broses gyd-adeiladu. Mae'n rhoi cyfle i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gynnig mewnbwn a fydd yn cefnogi datblygiad pellach y canllawiau.

Bydd y cam adborth hwn yn dod i ben ar 16 Gorffennaf 2021, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol a chan ymarferwyr ac eraill yn y gweithgorau. Yna bydd y canllawiau drafft yn cael eu mireinio mewn ymateb i'r adborth a bydd yn rhan o ddiweddariad i Fframwaith Cwricwlwm Cymru yn hydref 2021, i'w ddefnyddio gan ysgolion a lleoliadau fel offeryn ar gyfer cynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm.

Derbynnir yn ddiolchgar eich holl adborth.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **16 Gorffennaf 2021** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

Mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/>

Mae canllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/>

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhoch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwydd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE)

Dyma'r canllawiau drafft yr ydym yn gwahodd adborth arnynt.

1. Cyflwyniad

Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol o fewn Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed.

Mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ("y Ddeddf") a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

Cynulleidfa

Bydd yn rhaid i'r canlynol ystyried y canllawiau wrth gynllunio maes llafur ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

- (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- (c) darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- (ch) yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- (d) pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- (e) person sy'n darparu addysgu a dysgu i blentyn, heblaw mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wnaed o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. (t. 56)
- (g) awdurdod lleol yng Nghymru.

Rhaid i'r personau/cyrff a nodir uchod sy'n gyfrifol am gynllunio maes llafur lleoliad ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ddarllen ac ystyried y canllawiau wrth gynllunio elfen Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg cwricwlwm ysgol yn unol â Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer awdurdod lleol pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau o dan yr adran honno wrth fabwysiadu maes llafur cytunedig. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau hyn yn unol ag adran 375A (8) o Ddeddf Addysg 1996.

Mae'r canllawiau hyn hefyd wedi'u bwriadu ar gyfer Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar addysg grefyddol (CYSau) yn unol ag adran 391 (11) o Ddeddf Addysg 1996. Felly, rhaid i bob CYS ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â chynghori awdurdod lleol ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am baratoi maes llafur cytunedig, sef:

- yr awdurdod lleol
- Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig

- y corff o bersonau a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 12 o Atodlen 31 i Ddeddf Addysg 1996 i baratoi maes llafur cytunedig pan na lwyddodd y Gynhadledd i wneud hynny.

Yn unol â pharagraff 14A o Atodlen 31 i Ddeddf 1996, rhaid i'r cyrff hynny ystyried y canllawiau hyn.

Gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, rhieni a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nid oes rhaid i'r cyrff hyn ystyried y canllawiau ond gall fod yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol iddynt gyfeirio atynt er mwyn deall cynnwys maes llafur lleoliad penodol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn well.

O 2022 ymlaen, caiff addysg grefyddol ei hailenwi'n 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' er mwyn adlewyrchu cwrmpas eang y pwnc yn fwy cywir mewn perthynas â'i ofyniad plwraliaethol a'i safle o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio holl gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy amrywiaeth o lensys, a byddant yn ystyried pwysigrwydd y berthynas rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac agweddau eraill ar fywyd, cymdeithas a'r byd. Bydd deall y cysyniad o grefydd yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth gyflawn o grefydd, ac arwyddocâd y gwahanol ffyrdd o'i diffinio.

Nid oes a wnelo Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm â gwneud dysgwyr yn grefyddol neu'n ddigrefydd; felly, rhaid i'r ffordd y caiff y pwnc ei addysgu hyrwyddo bod yn agored ac yn ddiduedd a pharch at eraill drwy ddull gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol.

2. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a deddfwriaeth

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Maes llafur y cytunwyd arno'n lleol

Mae maes llafur cytunedig yn pennu'r hyn yr argymhellir ei addysgu ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn awdurdod lleol, a dylid ei adolygu o bryd i'w gilydd ac yn sicr o fewn pum mlynedd i'r dyddiad y cafodd ei fabwysiadu ddiwethaf neu y penderfynwyd ddiwethaf y byddai'r maes llafur cyfredol yn parhau. Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gynnal cynhadledd maes llafur cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur ac argymhell maes llafur priodol i'r awdurdod lleol er mwyn iddo ei fabwysiadu. Bydd angen sicrhau y caiff Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau ategol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hystyried wrth argymhell maes llafur cytunedig i awdurdod lleol ei fabwysiadu.

Ar ôl cytuno ar hyn, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Mae'r Ddeddf yn mewnosod adran newydd i Gymru yn unig, sef adran 375A, yn Neddf Addysg 1996. Mae adran 375A o Ddeddf 1996 yn nodi ei bod yn rhaid i awdurdod lleol fabwysiadu maes/meysydd llafur cytunedig ar gyfer ei ardal sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- rhaid iddo/iddynt adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru;
- rhaid iddo/iddynt hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod y cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol yn golygu argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("E2P1").

Ystyr crefydd:

Fel y nodwyd uchod, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i elfen Maes Llafur Cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei chynllunio i gynnwys elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Eglurir ystyr hynny yn adran 390A o Ddeddf 1996 sy'n cyfeirio at draddodiadau crefyddol. Yn gryno, rhaid cynnwys amrywiaeth o grefyddau gwahanol. Yn y cyd-destun hwn, rhoddir i'r term "crefydd" yn y cyd-destun hwn ei ystyr gonfensiynol neu gyffredin fel y'i deallir fel arfer. Ystyriwn fod gan grefydd y nodweddion canlynol:

- mae'r dilynwyr yn credu mewn bod goruchaf (mae'r cysyniad o fod goruchaf yn cynnwys y cysyniad hirsefydlog o un Duw Cristnogol, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny);
- mae'r dilynwyr yn addoli'r bod goruchaf hwnnw, hynny yw maent yn cymryd rhan mewn gweithredoedd neu arferion lle maent yn mynegi eu cred yn y bod goruchaf ac yn dangos parch ato neu barchedig ofn ohono;
- mae'r sefydliad yn hyrwyddo'r grefydd honno drwy ei weithgareddau.

Ystyr argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol:

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i elfen Maes Llafur Cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Mae hyn yn gysylltiedig â'r elfen 'Gwerthoedd a Moeseg' o fewn teitl y pwnc newydd hwn. Fel y nodwyd uchod, daw'r term 'argyhoeddiadau athronyddol' o E2P1.

Mae'r Llysoedd wedi penderfynu nad yw'n gyfystyr â'r termau 'safbwyntiau' a 'syniadau' pan gaiff ei ddefnyddio ar ei ben ei hun. Mae'n dynodi safbwyntiau sy'n cyrraedd lefel benodol o rym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd (Valsamis v. Greece, §§ 25 and 27). Felly, pan wrthododd rhieni dderbyn cosbi corfforol yn ysgol eu plant, roedd hynny yn unol â'u hargyhoeddiadau athronyddol.

Cyfeiriwn at "argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol" ac nid at "argyhoeddiadau athronyddol" oherwydd credwn mai crefydd yw unrhyw argyhoeddiadau athronyddol crefyddol, ac mae hynny eisoes wedi'i gynnwys yn benodol yn y Ddeddf¹.

Ar y llaw arall, mae'r llysoedd wedi gwrthod y ddadl bod credoau o blaid hela wedi'u diogelu gan Erthygl 9 er gwaethaf argyhoeddiadau cryf pobl bod ganddynt hawl i hela gan ddefnyddio cŵn am nad yw'n ddigon pwysig fel agwedd ar fywyd ac ymddygiad dynol sy'n angenrheidiol er mwyn ei gwneud yn gred athronyddol y dylai math penodol o weithgaredd hamdden gael ei ganiatáu (R v Countryside Alliance) V A-G.

¹ Ni ddefnyddir y term "argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol" yn E2P1 ond fe'i defnyddiwyd mewn achos a oedd yn ystyried E2P1 (Lautsi and others v Italy (App. No. 30814/06) - [2011] ECHR 30814/06). Ni fu dim byd i awgrymu bod yr awdurdodau wedi bod yn anoddefgar tuag at ddisgyblion a oedd yn credu mewn crefyddau eraill, yn anghredinwyr neu'n meddu ar argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Mae'r uchod yn cyfeirio at nifer o achosion mewn perthynas ag Erthygl 9 sy'n cyfeirio at 'grefydd neu greddoau'. Mae Erthygl 9 ac E2P1 yn berthnasol i'r un ystod o safbwyntiau/creddoau/argyhoeddiadau. Er enghraifft, mae paragraff 7 o ganllawiau Llys Hawliau Dynol Ewrop ar E2P1 yn nodi: "The Convention must be read as a whole and Article 2 of Protocol No. 1 constitutes, at least in its second sentence, the interpretation in relation to Article 9 in matters of education and teaching (Folgerø ac Eraill v. Norwy [GC], § 84; Lautsi ac Eraill v. yr Eidal [GC], § 59; Osmanoglu a Kocabaş v. y Swistir, §§ 90-93)".

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol a bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob plentyn ym mhob ysgol a lleoliad a gynhelir. Nid oes hawl i dynnu'n ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig a chanllawiau statudol Gweinidogion Cymru.

Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol

Yn achos ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod wedi cael ei chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig. (Y "maes llafur cytunedig" yng nghyd-destun yr Atodlen yw'r maes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 375A o Ddeddf 1996 i'w ddefnyddio mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod.) Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hon fod ar gael i bob disgybl.

Ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol

Yn achos ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod wedi cael ei chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig.

Fodd bynnag, mae gofyniad ychwanegol yn berthnasol i'r ysgolion hyn. Dim ond os nad yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol y bydd y gofyniad ychwanegol hwn yn gymwys.

Y cam cyntaf wrth benderfynu a yw'r gofyniad ychwanegol hwn yn berthnasol fydd ystyried a yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig yn cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaeth yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Os nad oes darpariaeth yn y weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y cam nesaf fydd ystyried a yw'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â daliadau'r grefydd neu'r enwad a nodwyd mewn perthynas â'r ysgol drwy orchymyn o dan adran 68A o Ddeddf 1998. Dim ond os nad yw'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth neu'r daliadau perthnasol y bydd y gofyniad ychwanegol yn berthnasol. Os bydd y gofyniad ychwanegol hwn yn berthnasol, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau dysgu ac addysgu a ddarperir i'r disgyblion gael eu cynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, ceir eithriad i'r gofyniad cyffredinol hwn sy'n galluogi rhieni disgybl i ofyn i'r ysgol, yn lle hynny, roi'r ddarpariaeth ychwanegol i'w plentyn sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad. Os gwneir cais o'r fath, rhaid cydymffurfio ag ef.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol

Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer dysgu ac addysgu mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad.

Unwaith eto, ceir gofyniad ychwanegol. I ysgolion o'r math hwn, dim ond os nad yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd (h.y. sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau crefydd neu enwad yr ysgol) yn cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig y bydd y gofyniad ychwanegol yn berthnasol. Yn yr achos hwn, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau dysgu ac addysgu a gynhelir ar gyfer disgyblion fod yn rhai y mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ei chrefydd neu ei henwad.

Ond, unwaith eto, ceir eithriad i'r gofyniad cyffredinol hwn sy'n galluogi rhieni disgybl i ofyn i'r ysgol, yn lle hynny, roi'r ddarpariaeth ychwanegol i'w plentyn a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig. Os gwneir cais o'r fath, rhaid cydymffurfio ag ef.

Newidiadau i gyfansoddiad Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig a CYSAGau

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer penodi personau sy'n cynrychioli pobl â chredoau athronyddol anghrefyddol yn yr un modd ag y maent yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli pobl â chredoau crefyddol.

Mater i'r Awdurdod Lleol yw penderfynu ar y personau priodol i'w penodi. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch penodiad yn dibynnu ar benderfyniad yr awdurdod lleol perthnasol y byddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod traddodiadau perthnasol yr ardal yn cael eu hadlewyrchu'n briodol. Caiff CYSAGau eu hailenwi'n Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS).

Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod nifer aelodau'r grŵp yn gymesur â chryfder pob crefydd, enwad neu argyhoeddiad yn ei ardal leol (gweler yr is-adran newydd (6A) a (6B) o adran 390 a fewnosodwyd gan baragraff 9(8) o'r Atodlen. Cyhoeddir canllawiau statudol ar wahân mewn perthynas â chyfansoddiad CYSAGau (CYSau).

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16

Nid yw hyn yn orfodol mwyach yn rhinwedd darpariaethau'r Ddeddf. Yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf, bydd pob dysgwr dros 16 oed bellach yn gallu dewis cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. O'r blaen, roedd yn ofynnol i bob dysgwr chweched dosbarth astudio Addysg Grefyddol. Os bydd dysgwr yn dewis cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a

Moeseg, yna bydd yn rhaid i'r ysgol neu'r coleg ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r egwyddor y dylai dysgwyr sy'n ddigon aeddfed allu gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu eu hunain.

Os bydd dysgwr yn gofyn am addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag adran 61, rhaid i'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei chynllunio mewn ffordd sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- rhaid iddi adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru;
- rhaid iddi hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod y cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol yn golygu argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("E2P1").

Gweler y paragraffau uchod am esboniad o ystyr crefyddau, traddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Nid yw adran 61 o'r Ddeddf yn atal ysgol rhag ei gwneud yn ofynnol i bob disgybl yn ei chweched dosbarth fynychu dosbarthiadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol; ac nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n gwneud hyn rhag darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg orfodol i'w disgyblion chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol"). Mater i'r ysgol yw cynnwys addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol o'r fath o hyd.

Addysg a ddarperir mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dylai darpariaeth addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir gael ei hystyried fel rhan o ddull cyfannol cyffredinol mewn perthynas â dysgu a datblygu. Mae adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' y canllawiau hyn yn cynnig rhagor o wybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, er mwyn helpu ymarferwyr yn y lleoliadau hyn i ddilyn y dull cyfannol hwn.

Mae chwylfrydedd dysgwyr ifanc yn ddi-ben-draw; maent yn mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain ac ar y cyd ag eraill, ac maent yn naturiol yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwrpas. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ac integredig sy'n ennyn eu diddordeb, gall dysgwyr yn y cyfnod dysgu hwn ddechrau dysgu mwy amdanynt eu hunain, am bobl eraill ac am y byd ehangach.

Dylai addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n ymatebol, yn ddeinamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf, fod wrth wraidd y broses o ddatblygu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad. Drwy chwarae, gall plant ddatblygu eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Gall hyn helpu i lywio'r ffordd y maent yn gweld y byd. Mae treulio amser yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol

dysgwyr, yn ogystal â'u lles. Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn eu helpu i ddod yn ymwybodol o'r angen i ddangos gofal a pharch tuag at bethau byw.

Yn ystod y cyfnod dysgu hwn, mae dysgwyr yn dechrau deall y cysyniad o 'wahaniaeth'. Dylai ymarferwyr eu hannog i rannu eu gwybodaeth am eu credoau, eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain, yn ogystal â rhai pobl eraill, ynghyd â'u profiadau ohonynt (er enghraifft, drwy ganeuon, straeon a chwarae rôl). Gall hyn helpu dysgwyr ifanc i ddeall mwy amdanynt eu hunain, ac am brofiadau a safbwyntiau a all fod yn wahanol i'w rhai eu hunain.

Gall amgylchedd cefnogol a meithringar helpu dysgwyr i ddechrau meithrin cydberthnasau llawn parch ac ymdeimlad o gyfrifoldeb. Mewn amgylchedd o'r fath gall dysgwyr ddysgu am yr hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng ei gilydd. Gallant ddechrau archwilio iaith hawliau a dechrau deall eu hawl i gredu pethau gwahanol a dilyn credoau gwahanol. Drwy hyn, gall dysgwyr ddechrau sylweddoli a deall sut y gall eu gweithredoedd effeithio ar eraill, a dysgu sut i fyfyrrio ar eu safbwyntiau eu hunain a'u hailystyried, fel y bo'n briodol, a hynny o oedran cynnar.

3. Sut mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cefnogi'r Pedwar Diben

Wrth wraidd Cwricwlwm i Gymru mae'r pedwar diben, sy'n nodi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, dylent fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/>

Nodir y pedwar diben hyn yn adran 2(2) o'r Ddeddf.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gwneud cyfraniad pwysig ac unigryw at gyflawni'r pedwar diben drwy roi cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:

- archwilio ac ymwneud â chwestiynau mawr ac athronyddol ynghylch ystyr, arwyddocâd a phwrpas bywyd, ac am natur meddwl bodau dynol a'r bydysawd, a'r cysylltiadau rhyngddynt
- ymgymryd ag ymholiadau ac ymwneud â ffynonellau doethineb ac athroniaeth sy'n eu hannog i archwilio heriau, cyfleoedd ac ymatebion bodau dynol yng nghyd-destun eu cynefin, yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach, yn ogystal â'u helpu i werthuso eu safbwyntiau eu hunain a rhai pobl eraill
- meithrin a mynegi eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, a fydd yn eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes yn y byd plwraliaethol ac amrywiol hwn
- defnyddio eu gwybodaeth am fydolygon crefyddol ac anghrefyddol sefydliadol a phersonol, a'u dealltwriaeth ohonynt, i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain ac am y ffordd y gallent wneud penderfyniadau cymdeithasol a phersonol pwysig
- ystyried ym mha ffyrdd y mae crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiadau bodau dynol drwy gydol hanes, fel y gallant wneud synnwyr o'u lle yn y byd, dychmygu dyfodol posibl a chreu atebion cyfrifol sy'n ystyried anghenion a hawliau amrywiol pawb

- gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn mynd i'r afael â materion moesegol a moesol hanesyddol a chyfoes sy'n herio eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o grefydd a chred, diwylliant, cymuned, eu cynefin, Cymru a'r byd ehangach, nawr ac yn y gorffennol. Gall hyn helpu i feithrin ymdeimlad o le ac o berthyn
- ymateb yn sensitif i grefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ac archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach, a'r ffordd y gallai'r rhain effeithio ar eu gweithredoedd a'u dewisiadau
- datblygu gwerthoedd pendant a sefydlu eu credoau moesegol a'u hysbrydolrwydd drwy archwilio crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ynghylch amrywiaeth o faterion. Gall hyn eu galluogi i ffurfio cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chyd-barch
- trafod eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill ar amrywiaeth o faterion, a myfyrio arnynt. Gall hyn eu helpu i feithrin eu lles meddyliol, emosiynol ac ysbrydol drwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi.

4. Datblygiad Ysbrydol

Un o nodweddion pedwar diben y cwricwlwm yw y caiff dysgwyr eu cefnogi i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Caiff cyfleoedd i ddatblygu'n ysbrydol eu cynnig yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Maes y Dyniaethau ac mae gan Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg lawer o gyfraniadau gwerthfawr ac unigryw i'w gwneud.

Yng nghyd-destun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae datblygiad ysbrydol yn ymwneud â'n gallu naturiol i chwilio am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd, ei fynegi a'i ddeall, ac i gwestiynu pwy ydym ni a pham rydym ni yma. Gall datblygiad ysbrydol gynnwys crefydd neu beidio. Drwy brofi cydberthnasau a myfyrio arnynt, gall datblygiad ysbrydol ddod i'r amlwg yn y canlynol: hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill; cysylltiadau â'r byd ehangach neu'r byd naturiol (ac, i rai pobl, â phŵer uwch neu realiti eithaf); creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin; archwilio cwestiynau mawr ac ystyried ystyr a phwrpas.

Hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- meithrin ymdeimlad o'u natur unigryw a'u gwerth;
- myfyrio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain, gan fynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain;
- datblygu uchelgeisiau a dysgu dygymod â siom;
- dangos empathi ac ystyriaeth at eraill;
- meithrin trugaredd a helpu eraill;
- datblygu llais a gwrandao ar leisiau pobl eraill a'u parchu;
- meithrin cydberthnasau da;
- siarad amdanynt eu hunain mewn perthynas â phobl eraill, y byd a/neu bŵer uwch neu realiti eithaf;
- meithrin ymwybyddiaeth o gredoau, dysgeidiaeth ac arferion pobl eraill, a pharch tuag atynt, yn ogystal â'r gallu i fynegi eu rhai nhw eu hunain;

- ystyried effaith bydolygon crefyddol ac anghrefyddol ar fywydau unigolion, y gymuned leol a chymdeithas ehangach.

Cysylltu â'r byd ehangach a'r byd naturiol

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- meithrin gwerthfawrogiad o'r ffaith eu bod yn perthyn i'w hardal leol, i Gymru ac i'r byd ehangach;
- profi'r byd naturiol, gwerthfawrogi'r amgylchedd a gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy i bawb;
- profi cyfoeth yr ysgogiadau o'u cwmpas drwy ddefnyddio'r synhwyrâu;
- profi bod yn bresennol yn y fan a'r lle;
- meithrin ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas, a'u lle ynddo;
- gwneud synnwyr o'u profiad o'r byd naturiol a chydberthnasau dynol.

Creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- meithrin creadigrwydd a defnyddio eu dychymyg;
- profi rhyfeddod neu gael eu syfrdanu gan bethau;
- meithrin chwilfrydedd a datblygu mewnwelediad.

Archwilio cwestiynau mawr ac ystyried ystyr a phwrpas

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- gofyn, ystyried a myfyrio ar y cwestiynau eithaf (y cwestiynau 'mawr' ynghylch bywyd);
- darganfod ystyr a phwrpas yn eu bywydau eu hunain;
- profi'r hyn sydd y tu hwnt i'r cyffredin.

Gall datblygiad ysbrydol hefyd ddigwydd wrth i ddysgwyr ymgysylltu â'u cynefin ac mewn bywyd pob dydd yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

5. Cynllunio Eich Cwricwlwm

Bydd angen i bob ysgol benderfynu ar ei dull ei hun o gynllunio'r cwricwlwm ym Maes y Dyniaethau a'r ffordd orau o gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ynddo. Er enghraifft, gellir cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd integredig, amlddisgyblaethol, ryngddisgyblaethol neu ddisgyblaethol. Dylid gwerthuso'r dull hwn yn rheolaidd yn unol â chanllawiau Cwricwlwm i Gymru.

Cyn y gellir dechrau gwneud unrhyw waith cynllunio manwl, mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn mynd ati'n gyntaf i ystyried y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes y Dyniaethau, sy'n cyfrannu at sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm.

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

Mae'r [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes](#) hwn yn galluogi dysgwyr i archwilio amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol, ac ymgysylltu'n feirniadol â nhw. Dylid ystyried y cysyniadau hyn yn ofalus a dylent fod yn sail ar gyfer cynllunio cwricwlwm yr ysgol.

Dylai cwricwlwm yr ysgol gael ei gynllunio mewn ffordd sy'n

- meithrin dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth a'i gwerth;
- darparu cyd-destunau cyfoethog i ddysgwyr fod yn chwilfrydig, archwilio cwestiynau mawr, a cheisio deall y cyflwr dynol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyr, a phrofi rhyfeddod, mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn ystyrion.
- datblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ymchwilio i gysyniadau crefydd, crefydd bob-dydd, bydolygon, seciwlaedd, ysbrydolrwydd, daliadau, hunaniaeth, a diwylliant er mwyn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth gyflawn o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol;
- darparu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ystyried cysyniadau cred, ffydd, gwirionedd, pwrpas, ystyr, gwybodaeth, ffynonellau awdurdod, yr hunan, tarddiad, bywyd, marwolaeth a realiti eithaf, a all alluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o fydolygon personol a sefydliadol ynghylch natur bywyd ar byd o'u cwrpas;
- datblygu cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau hunaniaeth, perthyn, cydberthnasau, y gymuned, cynefin, amrywiaeth, plwraliaeth a chydgyssylltiad, a all alluogi dysgwyr i feithrin ymdeimlad o'r hunan ac ysbrydolrwydd;
- archwilio cysyniadau cydraddoldeb, cynaliadwyedd, goddefgarwch, rhyddid, rhagfarn, gwahaniaethu, eithafiaeth, da a drwg, a all helpu dysgwyr i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan gymdeithas;
- adlewyrchu cysyniadau a chyd-destunau crefyddoldeb, arferion, defod, traddodiad, addoli, cysegredigrwydd, symbolaeth a dathlu er mwyn meithrin dealltwriaeth dysgwyr o grefydd a chred bob dydd.
- darparu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau moeseg, moesoldeb, cyfiawnder, cyfrifoldebau, awdurdod, dynoliaeth, hawliau, gwerthoedd a gweithredu cymdeithasol.

Mae'r canllawiau hyn yn ystyried ac yn nodi rhai lensys perthnasol i'w defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r lensys hyn yn cyd-fynd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a hefyd yn berthnasol i Feysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Mae'r lensys yn gydgysylltiedig ac ni fwriedir iddynt fod yn unedau nac yn bynciau. Cânt eu darparu er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i ddeall rhai agweddau arwyddocaol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'u helpu i adnabod cyfleoedd i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wrth iddynt gynllunio cwricwlwm yr ysgol.

Ymhlith y lensys o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae:

- **Chwilio am ystyr a phwrpas**
Sut mae pobl yn ymateb i gwestiynau dyfnach bywyd er mwyn deall y cyflwr dynol.
- **Y byd naturiol a phethau byw**

Sut a pham mae pobl yn dangos gofal a chyfrifoldeb am y byd ac yn cael eu rhyfeddu gan fyd natur.

- **Hunaniaeth a pherthyn**

Beth sy'n ein gwneud ni yn ni, fel pobl, cymunedau a dinasyddion yn byw mewn byd amrywiol.

- **Awdurdod a dylanwad**

Sut a pham mae gwahanol fathau o awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl.

- **Cydberthnasau a chyfrifoldeb**

Sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd, a pham mae'n bwysig meithrin cydberthnasau iach.

- **Gwerthoedd a moeseg**

Sut a pham mae pobl yn gwneud dewisiadau moesol a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu gweithredoedd.

- **Taith bywyd**

Beth mae pobl yn ei brofi fel rhan o daith bywyd, a'r ffordd y caiff y profiadau eu cydnabod.

[Mae cynnydd dysgwyr yn sbardun pwysig](#) ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm.

Adlewyrchir hyn yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'u disgrifiadau dysgu cysylltiedig ar gyfer y Maes hwn. [Bydd y disgrifiadau dysgu ar gyfer y Dyniaethau](#) yn helpu i roi arweiniad manylach i ymarferwyr.

Er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd o 3 i 16 oed mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Maes hwn, rhoddir enghraifft o 'daith ddysgu' ar gyfer pob lens. Mae pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn i'w gweld drwy'r teithiau dysgu, yn dibynnu ar y dull ddefnyddir. Mae'r teithiau dysgu hyn yn dangos sut y gall dysgwr feithrin dealltwriaeth o gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy lensys amrywiol, a gallant fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio eich cwricwlwm, ochr yn ochr â'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y Dyniaethau. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnig cyfres amgen o ddisgrifiadau dysgu, ac nid ydynt ychwaith yn cynnig pwyntiau cyfeirio na meini prawf penodol ar gyfer cyflymder cynnydd, ac ni ddylid eu defnyddio felly.

Taith Ddysgu Enghreifftiol 1: Chwilio am ystyr a phwrpas

Mae'r daith ddysgu ar gyfer y lens hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: *Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.* Gellir archwilio cysylltiadau â datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill drwy'r lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â *chwestiynau dyfnach bywyd*. Ar gamau dysgu cynnar, bydd dysgwyr yn dechrau gofyn cwestiynau dyfnach amdanynt eu hunain ac eraill, ac am y byd

naturiol a'r pethau byw o'u cwmpas (e.e. Pwy ydw i? Pam mae pethau'n marw?), yn ogystal â gwrando ar farn pobl eraill. Ymhellach ar hyd y daith hon, byddant yn casglu ac yn trafod mewnwelediad crefyddol ac anghrefyddol ac yn ystyried eu barn, eu safbwyntiau a'u dehongliadau eu hunain, a rhai pobl eraill, mewn ffordd fwyfwy soffistigedig. Yn ddiweddarach, gellir trafod a gwerthuso materion yn ymwneud â gwirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth wrth i ddysgwyr ystyried amrywiaeth o gwestiynau heriol am y materion hyn yn ddyfnach (e.e. bodolaeth da a drwg, natur dioddefaint, defnyddio cyfoeth). Gallant gydnabod bod ymatebion i'r fath gwestiynau yn gymhleth ac, yn aml, nad ydynt yn gyflawn nac yn bendant.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *dylanwad, parhad a newid*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau gwybod a mynegi'r hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi, yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus ac yn drist, a'u gobeithion a'u breuddwydion ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag ymateb i syniadau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith, gallant adnabod a thrafod mewnwelediad crefyddol ac anghrefyddol mewn perthynas â theimladau ac anghenion bodau dynol, gan gynnwys yr hyn sy'n dylanwadu arnynt a'r ffyrdd y cânt eu mynegi yn eu bywydau eu hunain ac ym mywydau pobl eraill. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddod i adnabod parhad a newid mewn ymatebion i gwestiynau am ystyr a phwrpas mewn bywyd, yn eu bywydau eu hunain ac mewn cymdeithas a diwylliant, ar adegau ac mewn lleoedd gwahanol. Maent yn gwerthuso gwerthoedd a syniadau cyfoes perthnasol mewn perthynas â hunan-werth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd ag *ymdrechion a chyfraniadau bodau dynol*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r bobl a'r 'syniadau mawr' sydd wedi llywio eu hardaloedd lleol a'u bywydau pob dydd. Ymhellach ar hyd eu taith, byddant yn dychmygu ac yn trafod yr hyn y gallant ei gyfrannu nawr ac yn y dyfodol, ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r gydberthynas rhwng dyhead ac arferion, gan ystyried amrywiaeth o gyfraniadau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol ar yr un pryd. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallant wneud cysylltiadau cynyddol gymhleth ymhlith agweddau ar iechyd a lles, anghenion a gofynion y byd sydd ohoni, a'u hymdrechion eu hunain i chwilio am ystyr a phwrpas.

Taith Ddysgu Enghreifftiol 2: Y byd naturiol a phethau byw

Mae'r daith ddysgu ar gyfer y lens hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau ffisegol a gweithredoedd dynol ac Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrion ac egwyddorol. Gellir archwilio cysylltiadau â datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill drwy'r lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â *gofal, ystyriaeth a pharch*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos gofal a pharch tuag at y byd naturiol a'r pethau byw o'u cwmpas. Ymhellach ar hyd eu taith, gallant adnabod sut a pham y byddant hwy ac eraill yn dangos gofal, pryder a pharch, yn ogystal ag ystyried safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr ddechrau codi cwestiynau moesegol mewn perthynas â gweithgarwch dynol, natur a lle, a'u hystyried yn feirniadol, gan fynd i'r afael ag ymatebion crefyddol ac anghrefyddol, yn ogystal â'u hymatebion eu hunain.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *rhyfeddod*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau cael eu rhyfeddu gan fyd natur, a bydd hyn yn datblygu wrth iddynt archwilio'r byd o'u cwrpas, gan arsylwi a gofyn cwestiynau. Ymhellach ar hyd eu taith, bydd ymdeimlad o gymhlethdod bywyd a'i gydgyssylltiad yn tyfu, yn ogystal ag ymdeimlad o gyfrifoldeb gweithredol. Yn ddiweddarach, bydd profiadau o ryfeddod yn dod yn fwy cynnil drwy ymgysylltu'n ddyfnach ac yn ehangach â lleoedd a phobl eraill, yn ogystal â'r byd naturiol a phethau byw.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *chyfrifoldeb a gweithredu*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o bethau byw y tu hwnt iddynt hwy eu hunain, a'r ffaith y gall eu gweithredoedd effeithio arnynt. Ymhellach ar hyd eu taith, gallant ddod i wybod 'straeon' crefyddol ac anghrefyddol am leoedd lleol, y byd naturiol a phethau byw, a sut maent yn gysylltiedig â'u hunain ac eraill. Drwy straeon crefyddol ac anghrefyddol (e.e. am darddiad y byd), gall dysgwyr ddysgu am athroniaethau gwahanol sy'n bwysig i'n dealltwriaeth o'r byd a lle bodau dynol ynddo. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, byddant yn meithrin y gallu i adnabod sut y caiff gwerthoedd a chredoau eu hadlewyrchu mewn gweithredoedd o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a'r berthynas rhyngddynt hwy a'u profiadau eu hunain.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *lle a gofod*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli eu bod wedi'u lleoli mewn lle a gofod, a bydd i hyn ystyr iddynt. Ymhellach ar hyd eu taith, byddant yn adnabod bod lleoedd a gofodau o'u cwrpas yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol, yn ogystal ag ystyried lleoedd o arwyddocâd arbennig am resymau crefyddol neu anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddechrau adnabod ac esbonio lleoedd sy'n destun dadlau (crefyddol ac anghrefyddol), gan werthfawrogi materion sensitif mewn perthynas â lle. Gallant ddeall cymhlethdod dadleuon a dylanwadau megis hunaniaeth, awdurdod, gwerthoedd, moeseg ac ystyriaethau ynghylch ystyr a phwrpas mewn bywyd.

Taith Ddysgu Enghreifftiol 3: Gwerthoedd a moeseg

Mae'r daith ddysgu ar gyfer y lens hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: *Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd ac Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwbybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrion ac egwyddorol*. Gellir archwilio cysylltiadau â datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill drwy'r lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â'r *hyn sy'n werthfawr i bobl*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau adnabod beth sydd o werth iddynt (e.e. tegwch, ymddiriedaeth, cariad, bywyd a charedigrwydd) a byddant yn gwrando ar farn pobl eraill. Gallant gydnabod yr angen i barchu eraill a gallant ddangos sut beth yw hyn yn eu bywydau pob dydd. Ymhellach ar hyd eu taith, bydd dysgwyr yn dod yn ymwbybodol o wahanol ddehongliadau a ffyrdd o fynegi gwerthoedd cyffredin, gan werthfawrogi amrywiaeth o ddylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Byddant yn dysgu sut mae rhai gwerthoedd a hawliau wedi newid dros amser. Wrth i'w gwybodaeth a'u profiad dyfu, gall dysgwyr ddechrau trafod amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol o fewn achosion o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig ag adnabod a diogelu hawliau dynol. Yn ddiweddarach, byddant yn meithrin y gallu i ffurfio, amddiffyn ac ailystyried eu

safbwyntiau moesegol ar faterion o bwys crefyddol ac anghrefyddol (e.e. sancteiddrwydd bywyd, rhyddid i lefaru, lles anifeiliaid, a rhyfel).

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *chredoau, gweithredoedd a chanlyniadau*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, a'r berthynas rhwng hyn a'u gweithredoedd a'u teimladau. Ymhellach ar hyd eu taith, mewn ffordd fwy eang a soffistigedig, gallant esbonio sut y gall eu gweithredoedd arwain at ganlyniadau iddynt hwy eu hunain ac i eraill, ac i'r byd a phethau byw, gan ddefnyddio mewnwelediad o amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gallant ddechrau rhagdybio a gwerthuso'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu hagweddau, eu hymddygiad a'u gweithredoedd, a rhai pobl eraill, gan gynnwys ffactorau sy'n ymwneud â chredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *gwneud penderfyniadau*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau adnabod enghreifftiau sylfaenol o gyfyng gyngor moesol a chynnig atebion. Ymhellach ar hyd eu taith, maent yn adnabod rheolau a chodau ymddygiad (crefyddol ac anghrefyddol) sy'n berthnasol iddynt hwy ac eraill o'u cwrpas, a gallant esbonio eu heffaith ar fywydau pobl. Yn ddiweddarach, gyda soffistigeiddrwydd cynyddol, gall dysgwyr ddechrau adnabod y cyfrifoldebau a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, a'u trafod yn feirniadol, gan ddangos dealltwriaeth o ffigyrau, prosesau a sefydliadau perthnasol sy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau, mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Bydd dysgwyr yn adnabod cyfleoedd lle mae angen cymryd camau moesol priodol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Taith Ddysgu Enghreifftiol 4: Hunaniaeth a pherthyn

Mae'r daith ddysgu ar gyfer y lens hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: *Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd, ac Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl*. Gellir archwilio cysylltiadau â datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill drwy'r lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynydd.

Mae a wnelo'r daith hon â'r *hyn sy'n gwneud pobl yn pwy ydynt hwy*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o bwy ydynt hwy a'r ffaith eu bod yn debyg ac yn wahanol i eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, byddant yn trafod yr hyn a all ffurfio hunaniaeth (e.e. cydberthnasau, ffyrdd o fyw, credoau, lle) a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar bobl a'u cymunedau. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr adolygu a gwerthuso amrywiaeth o athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol, safiadau mewn bywyd ac arferion sy'n ymwneud â'r hyn y mae bod yn ddynol yn ei olygu, a gallant ffurfio eu safbwyntiau eu hunain a'u hystyried mewn ffordd feirniadol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *chymunedau, cyfraniadau ac amrywiaeth*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn rhan o grwpiau a chymunedau amrywiol, a sut beth yw perthyn. Maent yn ymwybodol o amrywiaeth o fewn cymunedau perthnasol a'r ffaith bod eu profiadau o berthyn yn debyg ac yn wahanol i brofiadau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant archwilio ffyrdd o fynegi ymdeimlad o berthyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant drafod arwyddocâd perthyn ym mywydau pobl, gan gynnwys eu bywydau eu hunain. Yn

ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr ddechrau adnabod a gwerthuso cydberthnasau rhwng perthyn, ymrwymiad a chyfraniadau at gymdeithas, diwylliant a lles.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *lle, amser a chydberthnasau*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn bodoli mewn lle ac amser, a bod hyn yn eu llywio hwy a'r cymunedau o'u cwrmpas. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant archwilio'r rhyngweithio rhwng amrywiaeth o gymunedau a chymdeithasau yn lleol ac yn ehangach, a gallant drafod cyfraniadau hunaniaeth a pherthyn at safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddechrau adnabod parhad a newid mewn hunaniaeth a pherthyn, a'r ffyrdd y cânt eu profi yn bersonol ac ar y cyd. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr archwilio a gwerthuso cydberthnasau a rhyngddibyniaethau rhwng amrywiaeth o grwpiau, cymunedau a chymdeithasau (yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang) a'u heffaith ar fywydau pobl a'r byd naturiol. Gallant ystyried rolau hunaniaeth a pherthyn yn feirniadol er mwyn deall materion cyfoes cyffredin ac ymateb iddynt o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

Taith Ddysgu Enghreifftiol 5: Awdurdod a dylanwad

Mae'r daith ddysgu ar gyfer y lens hon yn seiliedig ar dri datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: *Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd, Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl, ac Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol*. Gellir archwilio cysylltiadau â datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill drwy'r lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon ag *awdurdodau a dylanwadau*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli bod rhai pobl bwysig yn dylanwadu arnynt, a bod hyn yn effeithio ar y ffordd y maent yn teimlo, yn meddwl ac yn ymddwyn. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant adnabod ac archwilio gwahanol ffynonellau awdurdod mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol (e.e. arweinwyr, cydberthnasau, testunau, codau ymddygiad, traddodiadau). Gallant ddechrau deall bod ffynonellau awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallant ddadansoddi a gwerthuso cydberthnasau cymhleth sy'n bodoli ymhlith ffynonellau awdurdod a rhyngddynt (gan gynnwys eu rhai eu hunain). Gallant ddechrau ystyried awdurdod profiad crefyddol ac ysbrydol a chydwybod, yn y gorffennol a'r presennol, a'u heffaith ar bobl, cymdeithas a diwylliant, mewn ffordd feirniadol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *phrofiadau a dehongliadau*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o ddylanwadau pwysig ym mywydau pobl eraill, a'r ffaith bod eu profiadau'n debyg ac yn wahanol i'w profiadau eu hunain. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant archwilio'r ffaith y caiff ffynonellau awdurdod eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol gan bobl a grwpiau amrywiol, o fewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddechrau adnabod dylanwadau ar ddehongliadau a'r ffaith bod rhai ffynonellau awdurdod yn fwy dylanwadol nag eraill i wahanol bobl, grwpiau a chymdeithasau. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddefnyddio sawl ffynhonnell awdurdod i werthuso dehongliadau crefyddol ac anghrefyddol o faterion sy'n berthnasol i'r cyflwr dynol, a gallant gyflwyno eu safbwyntiau gwybodus eu hunain. Gallant ystyried yn feirniadol sut a pham y gall profiadau a chysyniadau o awdurdod newid dros amser.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *dewisiadau a gweithredoedd*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall y gall dewisiadau effeithio ar eu gweithredoedd. Gallant ddangos ymwybyddiaeth o ddylanwadau ar eu dewisiadau. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant ddechrau sylweddoli sut mae pobl a chymunedau'n dibynnu ar ffynonellau awdurdod crefyddol ac anghrefyddol i'w harwain yn eu bywydau a llywio penderfyniadau pwysig. Yn ddiweddarach, wrth i dealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallant ddefnyddio eu gwybodaeth am amrywiaeth o ffynonellau awdurdod, a'u dealltwriaeth ohonynt, i ymgysylltu'n feirniadol â materion neu ddadleuon moesegol cyfoes, a dylanwadu ar weithredoedd a chanlyniadau posibl (e.e. her, consensws, cymodi).

Taith Ddysgu Enghreifftiol 6: Cydberthnasau a chyfrifoldeb

Mae'r daith ddysgu ar gyfer y lens hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: *Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol, ac Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl*. Gellir archwilio cysylltiadau â datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill drwy'r lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â'r *ffordd y mae pobl yn byw gyda'i gilydd*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn byw mewn nifer o gydberthnasau. Maent yn ymwybodol o'r hyn sy'n eu helpu i fyw gydag eraill. Gallant gynnig barn ar ffyrdd o ddatrys anghytundeb. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant adnabod a thrafod ffyrdd y caiff pwysigrwydd cydberthnasau (personol, cymdeithasol, amgylcheddol a throsgynnol) ei fynegi ym mywydau pobl, gan gyfeirio at gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddechrau sylweddoli bod cydberthnasau yn ddynamig ac yn gymhleth. Gallant ystyried dylanwadau a all gyfrannu at gytgord ac anghytgord yn fyd-eang, yn lleol ac yn bersonol (gan gynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol) mewn ffordd feirniadol. Gallant adolygu a gwerthuso heriau sy'n gysylltiedig â chydberthnasau, gan gyfeirio at amrywiaeth o fewnwelediadau a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *chyfrifoldebau a chydgyssylltiad*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o gysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, y byd naturiol a phethau byw. Gallant ddangos cyfrifoldeb tuag at eraill drwy weithredoedd syml. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant adnabod pam a sut mae pobl yn dangos cyfrifoldeb dros bobl ac am leoedd y tu hwnt i'w cydberthnasau personol. Gallant drafod dimensiynau materol ac anfaterol cydberthnasau (gan gynnwys dimensiynau ysbrydol, crefyddol, moesol), a gallant ddechrau adnabod cysylltiadau â thwf bodau dynol a sut y gall pobl fyw gyda'i gilydd yn gyfrifol yn y byd. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddechrau datblygu gwerthfawrogiad beirniadol o faterion arwyddocaol sy'n effeithio ar gydberthnasau ar lefel fyd-eang a gallant ddychmygu dyfodol posibl. Gallant ymgysylltu'n feirniadol ag amrywiaeth o athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol gan archwilio cydgysylltiad mewn bywyd, yn ogystal â natur a dealltwriaeth bodau dynol oddi mewn iddo.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *lles, hunaniaeth a chynhwysiant*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau eu hunain pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill. Gallant gydnabod bod gan bobl eraill brofiadau a theimladau hefyd, a'u bod yn wahanol ac yn debyg i'w profiadau a'u

teimladau eu hunain. Byddant yn dangos chwilfrydedd am fywydau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant archwilio sut y gall gweithredu olygu ymroddiad ac aberth sylweddol (yn y gorffennol a'r presennol) a chael effaith fawr ar fywydau a lles pobl eraill a'r byd ehangach. Gallant ddechrau adnabod cysylltiadau rhwng gweithredoedd a hunaniaeth, gan gynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant adnabod annhegwch ac anghydraddoldeb yn eu bywydau personol eu hunain ac mewn cymdeithas ehangach, ac awgrymu heriau priodol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ystyried yn feirniadol sut bethau yw cydberthnasau iach a beth yw eu cyfraniad at les, gan gyfeirio at amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddechrau deall a gwerthuso cydberthnasau rhwng hunaniaeth bersonol a hunaniaeth berthnasol o fewn grŵp.

Taith Ddysgu Enghreifftiol 7: Taith bywyd

Mae'r daith ddysgu ar gyfer y lens hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: *Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd, ac Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.* Gellir archwilio cysylltiadau â datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill drwy'r lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon ag *ystyr, pwrpas a dylanwad*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli bod gan bobl straeon bywyd personol. Byddant yn dechrau adrodd hanes eu bywydau eu hunain. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant archwilio amrywiaeth o lwybrau bywyd y mae pobl wedi'u profi, gan gyfeirio at gyd-destunau a dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant ddechrau adnabod cysylltiadau â chreu ystyr a phwrpas. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddadansoddi'r cysyniad o alwad yn y gorffennol a'r presennol, a'i ystyried yn feirniadol, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallant archwilio heriau y bydd pobl yn eu hwynebu ar hyd llwybr bywyd a gwerthuso ymatebion crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *chamau a digwyddiadau bywyd*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn tyfu ac yn newid dros amser. Byddant yn profi ac yn cymharu'r ffyrdd y caiff eu twf eu hunain a thwf pobl eraill eu cydnabod a'u dathlu. Gallant ddangos y cysylltiad rhwng eu bywydau ac adegau a thymhorau arbennig. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant archwilio digwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd a defodau newid byd, a gallant drafod eu rolau ym mywydau pobl drwy gyfeirio at fewnwelediadau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddadansoddi gweithredoedd defodol bodau dynol wrth nodi digwyddiadau arwyddocaol ac amser, a'u trafod yn feirniadol. Gallant ddechrau gwerthuso athroniaethau perthnasol ynghylch amser o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol a dangos sut y gall y rhain effeithio ar gredoau, arferion a gweithredoedd.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â *theithiau corfforol ac ysbrydol*. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli eu bod yn mynd ar lawer o deithiau gwahanol am resymau amrywiol. Maent yn dangos diddordeb yn nheithiau pobl eraill a gallant weld ym mha ffyrdd y maent yn debyg ac yn wahanol i'w profiadau eu hunain. Maent yn ymwybodol bod gan deithiau nodweddion corfforol yn ogystal â nodweddion anfaterol.

Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallant archwilio profiadau pobl o deithiau pwysig o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a gallant nodi rhesymau dros y teithiau hyn. Gallant

ddechrau deall bod teithiau'n gysylltiedig â lle ac amser. Gallant ddychmygu sut beth y gallai taith bwysig fod yn eu bywydau eu hunain. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr adnabod a gwerthuso cydberthnasau rhwng teithiau corfforol ac ysbrydol a'u heffeithiau ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas ehangach (e.e. hunaniaeth, ffurfiant bodau dynol, amrywiaeth, diwylliant). Gallant ystyried y cydgysylltiad rhwng teithiau, tirweddau a phobl mewn lleoedd ac ar adegau gwahanol, gan gyfeirio at gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol.

Cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Pa ddull bynnag a ddefnyddir i gynllunio'r cwricwlwm, bydd angen i ysgolion a lleoliadau sicrhau darpariaeth gyfoethog ar gyfer dysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy amrywiaeth eang o brofiadau. Mae profiadau dysgu yn agwedd ganolog ar athroniaeth [Fframwaith Cwricwlwm i Gymru](#). Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau y cynigir amrywiaeth o brofiadau i'r dysgwyr sy'n briodol yn ddatblygiadol ac sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Gall y profiadau hyn gynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:

- ymgysylltu â chymunedau lleol crefyddol ac anghrefyddol, mewn ffyrdd y bydd y dysgwyr yn eu mwynhau ac yn eu cofio
- chwarae rôl a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathliadau neu ddigwyddiadau ail-greu, neu arsylwi arnynt
- ystyried yr hyn sy'n dylanwadu ar bobl wrth iddynt ymateb i gyfyng gyngor moesegol, datrys problemau gwirioneddol a phresennol, neu ystyried digwyddiadau yn y gorffennol
- profi ac ystyried dirgelwch a rhyfeddod y byd naturiol, lleoliadau hanesyddol a safleoedd crefyddol a diwylliannol
- arsylwi a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n helpu dysgwyr i ddeall profiadau dynol
- archwilio a thrin a thrafod arteffactau a gwrthrychau crefyddol, gan gynnwys testunau cysegredig a thestunau eraill
- ymweld â mannau addoli lleol a lleoedd, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol arwyddocaol
- cwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddynt, gan gynnwys rhai sydd â chrefydd bob-dydd a bydolygon bob-dydd
- gofyn cwestiynau mawr sy'n ymwneud â phwerau uwch/realiti eithaf, y byd, ystyr a phwrrpas bywyd a'u profiadau eu hunain
- trin a thrafod gwahanol fathau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol e.e. arweinwyr crefyddol, pobl â ffydd a chred, athronwyr, mannau addoli, arteffactau, testunau cysegredig a gweithiau athronyddol.

Hefyd, er mwyn cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae angen i ysgolion a lleoliadau archwilio eu lle yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach fel cam pwysig yn y broses o gynllunio eu cwricwlwm. I ategu hyn, gall ysgolion a lleoliadau ymchwilio i'r grwpiau ffydd a chred a gynrychiolir yn lleol a ledled Cymru, yn ogystal â lleoedd a gofodau cysegredig, yn y gorffennol a'r presennol.

Cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill

Wrth gynllunio'r cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau, dylid archwilio cysylltiadau a rhyngddibyniaethau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill fel rhan o gwricwlwm cyfannol. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm>. Dylid defnyddio'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn wrth drefnu'r cwricwlwm, a dylai ymarferwyr gydweithio'n greadigol er mwyn cefnogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Rhestr wirio i ysgolion a lleoliadau

Gall ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cwestiynau canlynol wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

- Ydych chi wedi ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn Maes y Dyniaethau?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn helpu i wireddu'r pedwar diben?
- Ydych chi wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi defnyddio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried amrywiaeth o lensys y gellir eu defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried cynnydd mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddefnyddio'r disgrifiadau dysgu ym Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried y 'teithiau dysgu' a ddarparwyd er mwyn eich helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hun er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad Eraill?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol?

This page is intentionally left blank

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Canllawiau Statudol a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2021

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Gorffennaf 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Canllawiau Statudol a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm yn llwyddiannus. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi:

- canllawiau ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb
- canllawiau ar gyfer gyrfaedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- canllawiau i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwmm dysgu
- fframwaith cwricwlwm ac asesu i'w fabwysiadu gan leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir
- canllawiau ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am addysg heblaw yn yr ysgol
- canllawiau ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu eich barn ar y canllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru hyn, sydd wedi'u datblygu ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh).

Mae'r canllaw drafft wedi'i ddatblygu gan ymarferwyr trwy broses o gyd-adeiladu sydd wedi'i gefnogi gan arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r cam adborth hwn yn rhan o'r broses gyd-adeiladu. Mae'n rhoi cyfle i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gynnig mewnbwn a fydd yn cefnogi datblygiad pellach y canllawiau.

Bydd y cam adborth hwn yn dod i ben ar 16 Gorffennaf 2021, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol a chan ymarferwyr ac eraill yn y gweithgorau. Yna bydd y canllawiau drafft yn cael eu mireinio mewn ymateb i'r adborth a bydd yn rhan o ddiweddariad i Fframwaith Cwricwlwm Cymru yn hydref 2021, i'w ddefnyddio gan ysgolion a lleoliadau fel offeryn ar gyfer cynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm.

Derbynnir yn ddiolchgar eich holl adborth.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **16 Gorffennaf 2021** fan hwyraf.

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon
mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd
eraill.**

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

Mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/>

Mae canllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/>

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan
Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad

Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Canllawiau Statudol a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae adran 1 o'r ddogfen hon yn amlinellu'r canllawiau statudol drafft ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd.

Mae adran 2 yn amlinellu Cod drafft Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y cwricwlwm newydd.

Adran 1: Canllawiau Statudol

Mae'r canlynol yn ganllawiau drafft yr ydym yn gwahodd adborth arnynt. Mae'r canllawiau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ("y Ddeddf").

Cynulleidfa

Nodir isod yr unigolion hynny y bydd yn rhaid iddynt ystyried y canllawiau wrth gynllunio neu fabwysiadu¹ eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

- (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- (b) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir²;
- (c) yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion;
- (ch) pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
- (d) person sy'n darparu addysgu a dysgu i blentyn, heblaw mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wnaed o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. (p. 56)³;
- (dd) awdurdod lleol yng Nghymru.

Rhaid i'r personau/cyrff a nodir uchod sy'n gyfrifol am gynllunio cwricwlwm ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb lleoliad ddarllen ac ystyried y canllawiau wrth gynllunio elfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb cwricwlwm ysgol yn unol â'r Ddeddf.

¹ Gofynnir i feithrinfeydd a gyllidir ond nas cynhelir fabwysiadu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf. Mae hynny'n golygu bod gan y perchennog ddewis, naill ai i gynllunio cwricwlwm wedi'i deilwra'n benodol neu fabwysiadu'r cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 13 o'r Ddeddf. Ym mhob lleoliad arall fel ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir, bydd yn rhaid i'r pennaeth gynllunio cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf.

² Diffinnir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir yn adran 80(1)(a) o'r Ddeddf fel addysg feithrin a ddarperir: (i) gan berson ac eithrio corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, (ii) o dan drefniadau a wneir rhwng y person hwnnw ac awdurdod lleol yng Nghymru, drwy arfer dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau addysg feithrin o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a (iii) yn gydnabyddiaeth am y cymorth ariannol a ddarperir gan yr awdurdod o dan y trefniadau; Mae'r term "addysg feithrin" yn golygu addysg amser llawn neu ran amser sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol.

³ Mae hyn yn cyfeirio at y plant hynny nad ydynt mewn ysgol nac uned cyfeirio disgyblion. Gall hyn ddigwydd os yw salwch yn atal disgybl rhag mynychu'r cyfryw leoliadau.

Cyflwyniad

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan gadarnhaol ac amddiffynnol o Cwricwlwm i Gymru. Mae'n chwarae rôl ganolog wrth ategu hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau iach a diogel sy'n gwireddu eu dyheadau drwy gydol eu hoes.

Yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru mae dyhead y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm. Bydd Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i seilio ar [hawliau](#) a thegwch yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae ffydd, credoau, hawliau dynol a diwylliannau pobl yn gysylltiedig â phob agwedd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Gall yr hawliau hyn gyfrannu at ryddid, urddas, llesiant a diogelwch pawb. Felly, dylai ysgolion a lleoliadau drafod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yng nghyd-destun yr hawliau a ddiogelir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn⁴.

Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddeall sut mae **cydberthnasau** a **rhywioldeb** yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Dylai dysgwyr gael eu paratoi a'u grymuso i ofyn am gymorth ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac i eirioli drostyn nhw eu hunain ac eraill.

Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad gorfodol o fewn Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed ("y Ddeddf"). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob dysgwr gael yr addysg hon. Nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno'n raddol. Mae'n bosibl, felly, y bydd rhai disgyblion yn dal i gael eu tynnu allan o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hyd nes i drefniadau newydd y cwricwlwm gael eu cyflwyno ar gyfer eu blwyddyn ysgol nhw.

Yn ddatblygiadol briodol

Yn unol â'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a ddarperir fod yn briodol i ddatblygiad dysgwyr. Felly, mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o ffactorau fel oedran y dysgwr, ei wybodaeth a'i aeddfedrwydd, ynghyd ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhaid i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol i ddatblygiad pob dysgwr.

Dylai oedran dysgwyr fod yn un o'r meini prawf a ddefnyddir gan ymarferwyr wrth benderfynu pa mor briodol yw gwers; fodd bynnag, bydd angen iddynt ystyried ffactorau eraill hefyd wrth gynllunio darpariaeth. Dylid ystyried ffactorau fel datblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol dysgwyr hefyd. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel rhag gwybodaeth nad ydynt yn ddigon aeddfed ar ei chyfer. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn rheswm dros beidio â darparu'r

⁴ Gweler y rhestr termau am ragor o wybodaeth.

wybodaeth hanfodol sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ddatblygu'n gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol; mae angen i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i ddatblygiad drafod pynciau sy'n hanfodol i ddatblygiad dysgwyr. Er enghraifft, dylid ymdrin â materion a allai effeithio ar ddysgwyr iau, fel glaslencyndod a misglwyf, yn sensitif cyn i newidiadau ffisiolegol ddechrau. Dylai ysgolion ystyried hefyd sut i ddarparu cymorth priodol drwy ddull ysgol gyfan fel, yn achos y glasoed, sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad i nwyddau hylendid merched.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol

Dylai ysgolion sy'n darparu addysg i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol, dwys a lluosog ystyried beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pob dysgwr nad yw ei ddealltwriaeth o faterion iechyd a lles rhywiol o bosibl yn cyfateb i'w ddatblygiad.

Dylai pob aelod o staff, gan gynnwys staff ategol, ffisiotherapyddion, nyrsys a gofalmwyr fod yn ymwybodol o arfer yr ysgol o ran cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan gynlluniedig ac integredig o'r cwricwlwm, wedi ei chydlynu'n effeithiol i sicrhau parhad a dilyniant mewn dysgu ar draws y continwwm. Dylai ysgolion arbennig benderfynu ar union gynnwys y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r strategaethau ar gyfer dysgu a fabwysiedir i ddiwallu anghenion gwahanol y dysgwyr. Er enghraifft, ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio dulliau amgen o gyfathrebu, fel arwyddo, symbolau a/neu switshis a chymhorthion cyfathrebu, bydd angen i ysgolion sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â thermau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb allweddol mewn Makaton, Braille ac Iaith Arwyddion Prydain, neu ym mha bynnag ddull cyfathrebu amgen a ddefnyddir.

Statws cyfreithiol y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o'r Ddeddf. Bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

Gofyniad plwraliaethol

Mae'r gyfraith eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol o ran ei chynnwys a'r dull o'i haddysgu⁵. Nid yw'r Ddeddf yn newid y sefyllfa gyfreithiol honno. Wrth ddefnyddio'r gair 'plwraliaethol', rydym yn golygu na ddylai geisio gwrthio unrhyw safbwyntiau

⁵ Gweler achos *Dojan ac Eraill v. Yr Almaen* [2011] Rhif cais 319/08.

penodol; yn hytrach, dylai ddarparu amrywiaeth o safbwyntiau ar bwnc penodol. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, bod yn rhaid i bob ysgol a lleoliad addysgu Cydberthnas a Rhywioldeb mewn dull niwtral a ffeithiol. Pan fydd cwestiynau am werthoedd yn codi, rhaid iddynt gyflwyno sawl persbectif gwahanol i ddysgwyr ar ystod o safbwyntiau ar wahanol faterion a ystyrir yn gyffredin o fewn cymdeithas.

Er enghraifft, gall ysgolion addysgu am wahanol safbwyntiau o fewn crefyddau ar faterion cydberthnasau a rhywioldeb a gall hyn helpu dysgwyr i ymgysylltu a dod o hyd i ffordd i lywio drwy tensiynau posibl. Fodd bynnag, rhaid gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n ceisio gwrthio dysgwyr at safbwyntiau penodol.

Mae dealltwriaeth dda o gefndir ffydd y dysgwyr, eu gwerthoedd sy'n raddol yn dod i'r amlwg a'u cefndiroedd, ynghyd â chydberthnasau cadarnhaol rhwng yr ysgol a chymunedau ehangach yn helpu i greu cyd-destun adeiladol ar gyfer archwilio agweddau a thensiynau.

Yn unol ag Atodlen 19 i Ddeddf 1998, mae'n ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr addysgu addysg grefyddol (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn unol â'u gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau eu crefydd. Nid yw'r un peth yn wir am 'addysg rhyw' yn Neddf 1998 a dyw'r sefyllfa ddim yn newid i beth y gelwir nawr yn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Ni chaiff y sefyllfa honno ei newid gan y Ddeddf. Mae'r gofyniad i addysgu mewn ffordd blwraliaethol yr un mor gymwys i wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r ffordd y cânt eu haddysgu yn y cyfryw ysgolion.

O ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol, mae'n bwysig nodi y gall ysgol, ni waeth pa bynciau a addysgir mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, addysgu ei maes llafur enwadol ei hun fel rhan o addysg grefyddol h.y. maes llafur sy'n gyson â'i gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadaeth ei chrefydd⁶, ond dylen nhw ddarparu gwybodaeth niwtral am grefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol⁷.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â gofynion perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn benodol, dylai ysgolion a lleoliadau eraill nodi bod cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion) yng Nghymru, a'i fod yn gwneud synnwyr addysgol da i gydymffurfio ag ef. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn helpu ysgolion i ganolbwyntio ar faterion allweddol sy'n peri pryder a sut i wella deilliannau ar gyfer pob dysgwr. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys nodi ble y gallwn gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu a

⁶ Yn y cyfryw ysgolion, gall y rhieni bob amser ddewis bod eu plentyn yn dilyn y maes llafur cytunedig yn hytrach na'r maes llafur enwadol.

⁷ Mae hyn yn wir hefyd am yr ysgolion gwirfoddol hynny a reolir sydd â chymeriad crefyddol lle mae rhieni wedi dewis bod eu plentyn yn dilyn y maes llafur enwadol.

meithrin cydberthnasau da, a lle y bo'n bosibl, liniaru effeithiau negyddol a all ddeillio o benderfyniadau.

Ym mhob ysgol a lleoliad, dylai dulliau addysgu adlewyrchu'r gyfraith (gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010) fel y bo'n gymwys i gydberthnasau, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn deall yn glir yr hyn a ganiateir a'r hyn na chaniateir gan y gyfraith, a goblygiadau cyfreithiol ehangach y penderfyniadau a wneir ganddynt.

O dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, ni ddylai ysgolion wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn disgyblion ar sail oedran, rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, aibennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, neu gyfeiriadedd rhywiol (a elwir gyda'i gilydd yn nodweddion gwarchodedig). Mae'n rhaid i ysgolion wneud addasiadau rhesymol hefyd er mwyn lliniaru unrhyw anfantais.

Mae darpariaethau yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i ysgolion gymryd camau cadarnhaol, lle y gellir dangos eu bod yn rhai cymesur, i fynd i'r afael ag anfanteision penodol sy'n effeithio ar un grŵp oherwydd nodwedd warchodedig. Dylid ystyried hyn wrth gynllunio ac addysgu'r pynciau hyn.

Dylai ysgolion ystyried cyfansoddiad eu corff myfyrwyr eu hunain, gan gynnwys rhywedd ac ystod oedran eu disgyblion. Dylent hefyd ystyried a yw'n briodol neu'n angenrheidiol sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael i ddisgyblion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o bosibl). Dylai ysgolion ystyried yr hyn y gallant ei wneud i feithrin proses gyfathrebu ac ymddygiad iach, llawn parch rhwng bechgyn a merched, a chynnig amgylchedd sy'n herio terfynau canfyddedig yn seiliedig ar rywedd disgyblion neu unrhyw nodwedd arall, gan gynnwys drwy'r pynciau hyn ac fel rhan o ddull ysgol gyfan.

Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Argymhellir bod gan bob uned cyfeirio disgyblion ac ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, bolisi ysgrifenedig cyfredol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd ar gael i'w archwilio gan rieni neu ofalwyr. Mae gan gyrff llywodraethu, penaethiaid ac aelodau perthnasol o staff rôl allweddol i'w chwarae wrth lunio rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol a monitro ei heffeithiolrwydd. Argymhellir y dylai gyrff llywodraethu sicrhau bod y polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgrifenedig yn cael ei adolygu'n flynyddol a bod yr ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr yn digwydd ar adegau addas.

Fel y nodwyd uchod, caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno'n raddol. Hyd nes y bydd elfen orfodol newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i chyflwyno'n llawn, bydd rhai blynyddoedd ysgol yn parhau i gael y gwersi 'addysg rhyw' sy'n unol ag adran 101 o Ddeddf Addysg 2002. Yn yr un modd, bydd adran 404 o Ddeddf Addysg 1996 yn parhau'n weithredol, ac felly rhaid i bob uned cyfeirio disgyblion ac ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, fod â pholisi ysgrifenedig cyfredol ar 'addysg rhyw' sydd ar gael i'w archwilio gan rieni neu ofalwyr.

Dylai'r polisi:

- amlinellu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn fframwaith clir o werthoedd a hawliau;
- nodi nodau a deilliannau disgwylidig rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol yn glir;
- disgrifio sut y caiff y rhaglen ei rheoli a'i threfnu, a sut mae wedi'i hymgorffori yn null gweithredu'r ysgol gyfan ac yn ffurfio/cysylltu â meysydd eraill o gwricwlwm yr ysgol;
- amlinellu sut y cyflawnir y rhaglen, y dulliau addysgu a'r adnoddau a ddefnyddir a phwy sy'n gyfrifol am ei darparu a gwerthuso eu heffeithiolrwydd;
- nodi cynnwys y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer pob grŵp blwyddyn, crynhoi pryd y dylid cyflwyno themâu allweddol a sut y dylid ymdrin â materion a allai fod yn sensitif; disgrifio sut mae polisiâu'r ysgol ar gyfrinachedd, diogelu, amddiffyn plant a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru 2015 yn berthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;
- egluro sut y caiff dysgwyr wybod ble y gallant gael cyngor cyfrinachol, gwasanaeth cwnsela a, lle y bo angen, triniaeth;
- nodi sut y ceisir safbwyntiau dysgwyr;
- crynhoi'r rôl a chwaraeir gan weithwyr ieuchyd proffesiynol ac asiantaethau allanol arbenigol a sut y bydd eu cyfraniad yn gwella'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ;
- egluro sut y caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei monitro a'i gwerthuso, a nodi sut yr eir ati i'w hadolygu'n rheolaidd a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn gyfredol;
- nodi nad yw'r cwricwlwm newydd yn caniatáu i rieni dynnu eu plant o'r gwersi. Fodd bynnag, caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno'n raddol. Mae'n bosibl, felly, y bydd rhai disgyblion yn dal i gael eu tynnu allan o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hyd nes i drefniadau newydd y cwricwlwm gael eu cyflwyno ar gyfer eu blwyddyn ysgol nhw. Rydym yn argymhell y dylai'r polisi gynnwys datganiad am hawl rhieni neu ofalwyr i dynnu eu plentyn allan o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb lle mae hynny'n dal i fod yn briodol hyd nes i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno'n llawn.

Egwyddorion cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol

Dylai cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgolion a lleoliadau gefnogi ac adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd pob dysgwr mewn ffyrdd priodol drwy gydol eu datblygiad, a chreu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n adeiladu ar brofiadau dysgwyr o fewn a'r tu hwnt i'r lleoliad addysgol, gan hyrwyddo dewisiadau amgen cadarnhaol i brofiadau rhai dysgwyr. Mae egwyddorion allweddol isod i lywio'r ffordd y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei datblygu a'i gweithredu.

- Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan o **ddull ysgol gyfan** a chael ei hintegreiddio a'i chydgyssylltu'n effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.
- Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol yn gofyn am arbenigedd, amser ac adnoddau arbenigol. Bydd hyn yn sicrhau bod amgylchedd cefnogol yn cael ei greu fel bod dysgwyr ac ymarferwyr yn gallu trafod materion a all fod yn sensitif neu'n heriol a dysgu amdanynt yn ddiogel.
- Dylai fod dull rhyngddisgyblaethol o ran cynnwys, gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac yn y ffordd yr eir i'r afael â hi. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn faes eang a chymhleth sy'n cynnwys dimensiynau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, moesegol a diwylliannol sy'n esblygu dros oes.
- Dylai pob ymarferydd gyfrannu at flaenoriaethau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol, ac mae dysgu proffesiynol yn ofyniad allweddol o ran cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd da. Dylai ysgolion a lleoliadau alluogi pob ymarferydd i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a all ei helpu i feithrin hyder a gwybodaeth ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Gan adeiladu ar ofynion gorfodol y Cod, dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei gyflawni mewn ffordd **gynhwysol**. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gall pob dysgwr weld ei hun, ei deulu, ei gymuned a phobl eraill yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o'r cwricwlwm a dysgu sut i werthfawrogi gwahaniaeth ac **amrywiaeth** fel ffynhonnell cryfder. Mae hyn yn cyfrannu at gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn sy'n datblygu'r sgiliau bywyd sydd eu hangen ar ddysgwyr.
- Dylai ysgolion a lleoliadau gyfathrebu'n glir ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a dylent ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, gofawyr a'r gymuned ehangach, a chynnig cyfle iddynt drafod ac ymgysylltu â phenderfyniadau ynghylch dysgu ac addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Dylai'r ddarpariaeth fanteisio ar wasanaethau arbenigol ac arbenigedd, ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Dylai fod yn ystyriol o'r gwahanol safbwyntiau a chefnidiroedd a geir mewn cymuned lleol.
- Gan adeiladu ar y Cod, wrth ddatblygu dull gweithredu dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn amddiffynnol ac yn ataliol, gan ystyried sut gallai dysgwyr cael eu cefnogi:
 - i ddeall ac ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau;
 - i feddu ar y wybodaeth i nodi achosion o wahaniaethu a thrais,
 - gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
 - i ofyn am help a chyngor lle bo'n briodol.
- Dylai'r addysgu o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ymateb i brofiadau byw dysgwyr a pharchu'r profiadau hynny.
- Dylai'r dull gweithredu ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fynd i'r afael â themâu a phynciau cylchol sy'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar ddealltwriaeth ac

anghenion newidiol dysgwyr, a dylai annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

- Gan adeiladu ar y cod, wrth ddatblygu eu dull gweithredu dylai ymarferwyr gydnabod datblygiad ac anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a gwybyddol dysgwyr, yn ogystal â'u gwybodaeth a'u profiadau esblygol.
- Dylai cynnydd mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn broses barhaus, gan anelu at wella llesiant a diogelwch cyffredinol y dysgwr er mwyn gwireddu'r pedwar diben. Wrth i ddysgwyr symud ymlaen yn eu dysgu, dylent adeiladu ar ddysgu blaenorol, gan gadarnhau a chryfhau'r un ymagweddau, gwybodaeth a sgiliau, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd, perthnasol. Dylai'r dull weithredu ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sicrhau bod popeth a ddysgir a phob profiad addysgol a geir yn cael eu trefnu a'u hatgyfnerthu yn y continwmm.

Adran 2: Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r cod gorfodol hwn yn helpu ysgolion a lleoliadau i gynllunio eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rhennir y cynnwys yn dri llinyn cyffredinol, a gallant fod yn rhyng-gysylltiedig.

Llunnir y Cod hwn o dan adran 8 o'r Ddeddf, ac mae'n cynnwys gofynion gorfodol. Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oni bai ei fod yn cydymffurfio â darpariaeth y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yn yr un modd, nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu elfen orfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oni bai ei fod yn cydymffurfio â darpariaeth y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Dyma'r themâu a'r materion i'w cwmpasu gan elfen orfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

- Datblygu a mynegi hunaniaeth a meithrin cydberthnasau;
- Deall iechyd rhywiol a lles;
- Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth.

Mae'r llinynnau hyn yn caniatáu i ymarferwyr gynllunio a datblygu cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i'w dysgwyr, sy'n creu cysylltiadau ac sy'n datblygu cyd-destunau dysgu dilys ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a amlinellir fesul llinyn mewn tabl yn y ddogfen hon, yn adlewyrchu nifer o themâu – cydberthnasau, hawliau a thegwch; **rhyw** rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd gorfforol; iechyd a lles rhywiol; a thrais, diogelwch a chymorth.

Ar draws y themâu hyn, bydd cynnwys y cwricwlwm o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth. Rhaid iddo gynnwys dysgu i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd ac amrywiaeth o gydberthnasau, rhyw a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTC+.

Cynllunio eich cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Llinyn 1 – Datblygu a mynegi hunaniaeth a meithrin cydberthnasau

Mae'r llinyn hwn yn darparu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu bod pobl o bob oed yn unigryw ac yn aelodau o deuluoedd, grwpiau gwahanol a chymunedau, ac ar gyfer profi beth mae hyn yn ei olygu. Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddeall y rolau gwahanol y gallant eu chwarae, gyda'u cyfoedion a chyda'r oedolion yn eu bywydau, i ddatblygu eu hunanhyder, i feddu ar yr hyder i siarad drostyn nhw eu hunain ac i godi eu llais o blaid eraill. Ar yr adeg briodol, dylid eu helpu i feithrin dealltwriaeth o bobl eraill a dangos empathi.

Wrth i ddysgwyr ddatblygu, gallant ddechrau ystyried sut y gall eu profiadau personol, eu hymwneud a'u perthynas ag eraill lywio a dylanwadu ar hunaniaeth pobl a phwy ydynt fel unigolion. Yn raddol, dylai dysgwyr gael eu cefnogi i ddeall y ffordd y mae elfennau o hunaniaeth a phwy yw pobl fel unigolion, gan gynnwys amrywiaeth LHDTG+, eu rhyw, eu rhywedd a'u rhywioldeb, yn datblygu ac yn newid dros amser. Mae gallu nodi a gwerthfawrogi'r pethau sy'n cysylltu unigolion cyn bwysiced â deall y pethau sy'n ein gwneud ni'n wahanol ac yn unigryw. Gall ymwybyddiaeth o'r ffordd rydym yn llunio barn am bobl eraill helpu i ddatblygu barn gytbwys amdanon ni ein hunain yn ogystal â dathlu amrywiaeth ymhlith eraill.

Cynnwys sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwr

Mae'r cynnwys yn y tabl isod yn dangos y blociau adeiladu [cynnydd](#) ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n broses barhaus. Wrth i ddysgwyr symud ymlaen yn eu dysgu, dylent adeiladu ar ddysgu blaenorol – gan gadarnhau a chryfhau'r un ymagweddau, gwybodaeth a sgiliau, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd, perthnasol. Mae hyn yn wahanol iawn i gael gwybodaeth am bynciau heb gyd-destun ac yna symud ymlaen at ddeunydd arall.

Wrth sôn am ddarpariaeth addysgol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, cyfeirir at yr hyn a addysgir yn glir yn ogystal â'r hyn sydd wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol.

Dylid defnyddio'r datganiadau yn y tabl ar y cyd â'r disgrifiadau dysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad lechyd a Lles, sy'n rhoi mwy o fanylion ynghylch yr hyn a ddysgir.

Datblygiad cynnar (tua 3-7 oed)	Blynyddoedd datblygiad (tua 8-11 oed)	Llencyndod (tua 12-16 oed)
Mae'r amgylchedd dysgu yn datblygu a'r addysgu yn canolbwyntio ar:		
Datblygu empathi, caredigrwydd a thosturi drwy ryngweithrediadau rhag-gymdeithasol cadarnhaol.	Sut mae dangos bod empathi, caredigrwydd a thosturi yn nodweddion allweddol ar gydberthynas gadarnhaol.	Nodweddion cydberthnasau teg, cydsyniol a chariadus.
Ymwybyddiaeth bod gwahanol fathau o deuluoedd a chydberthnasau	Dealltwriaeth o'r hyn sy'n nodweddu natur teuluoedd gwahanol ac amrywiaeth o gydberthnasau.	Dealltwriaeth o bwysigrwydd cysylltiadau ag eraill a'r ffordd y maent yn helpu i lywio ein hunaniaeth.
Mae pawb yn unigryw.	Dealltwriaeth o nodweddion cymdeithas amrywiol a'r gwerthoedd/buddiannau/heriau sy'n gysylltiedig â byw mewn cymdeithas amrywiol.	Gwerthfawrogi cydberthnasau diogel, iach a theg mewn amrywiaeth o gyd-destunau (gan gynnwys priodas, a phob math o bartneriaeth sifil).
	Ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae normau, rolau a stereoteipiau cymdeithasol a diwylliannol yn llywio canfyddiadau ynghylch delwedd corff, ymddygiad ac iechyd.	Dealltwriaeth am sut mae normau cymdeithasol a diwylliannol yn llywio teimladau ynghylch delwedd corff, ymddygiad ac iechyd, a strategaethau i'w gwrthweithio.
		Sut a pham mae agweddau at amrywiaeth yn newid (gan gynnwys amrywiaeth o ran rhywedd a rhywioldeb).

Llinyn 2 – Deall iechyd rhywiol a lles

Mae'r llinyn hwn yn rhoi cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu am y ffordd y mae pethau byw yn tyfu, yn atgennedlu ac yn mynd drwy gylchred bywyd. Pan fydd dysgwyr yn deall hyn, byddant yn symud ymlaen i ystyried y newidiadau sy'n digwydd i'r corff dynol drwy gydol y cylchred atgynhyrchiol ac wrth ddod yn oedolyn. Yn natblygiad cynnar, bydd dysgwyr yn cael profiad o gyd-destunau ar gyfer deall pwysigrwydd cynnal iechyd a lles personol, gan gynnwys hylendid personol, a'r ffordd y mae hyn yn effeithio arnyn nhw a phobl eraill, gan symud ymlaen i gymhwyso egwyddorion iechyd a hylendid eang at iechyd rhywiol.

Wrth i ddysgwyr ddatblygu, dylai'r hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir ganolbwyntio ar ystyried y ffordd y mae newidiadau corfforol yn effeithio ar les a chydberthnasau. Dylai hefyd ganolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth o ganlyniadau posibl y penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag iechyd rhywiol a chydberthnasau.

Cynnwys sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwr

Mae'r cynnwys yn y tabl isod yn dangos y blociau adeiladu cynnydd ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n broses barhaus. Wrth i ddysgwyr symud ymlaen yn eu dysgu, dylent adeiladu ar ddysgu blaenorol – gan gadarnhau a chryfhau'r un ymagweddau, gwybodaeth a sgiliau, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd, perthnasol. Mae hyn yn wahanol iawn i gael gwybodaeth am bynciau heb gyd-destun ac yna symud ymlaen at ddeunydd arall.

Wrth sôn am ddarpariaeth addysgol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, cyfeirir at yr hyn a addysgir yn glir yn ogystal â'r hyn sydd wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol.

Dylid defnyddio'r datganiadau yn y tabl ar y cyd â'r disgrifiadau dysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, sy'n rhoi mwy o fanylion ynghylch yr hyn a ddysgir.

Datblygiad cynnar (tua 3-7 oed)	Blynyddoedd datblygiad (tua 8-11 oed)	Llencyndod (tua 12-16 oed)
Mae'r amgylchedd dysgu yn datblygu a'r addysgu yn canolbwyntio ar:		
Ymwybyddiaeth o gylchredau bywyd a bod pethau byw yn newid wrth iddynt dyfu. Pwysigrwydd hunanofal, hylendid personol a rheoli heintiau.	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae organau atgennedlu yn datblygu yn y corff dynol, a phrosesau atgennedlu, gan gynnwys yr hyn sy'n cefnogi iechyd a lles mislif.	Sut i nodi nodweddion ac elfennau positif cydberthnasau iach, gan gynnwys parch y naill at y llall, cydsyniad, a rhannu'r un agweddau ar fywyd.

	Ymwybyddiaeth raddol mewn dealltwriaeth y gall datblygu cydberthnasau arwain at ganlyniadau bwriadedig ac anfwriadedig, gan gynnwys all-lein ac ar-lein.	Gwybodaeth a dealltwriaeth y gall profiadau rhywiol arwain at ganlyniadau bwriadedig ac anfwriadedig, gan gynnwys all-lein ac ar-lein.
Defnyddio terminoleg gywir ar gyfer pob un o rannau'r corff.	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae glasoed yn ysgogi newidiadau corfforol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol sylweddol i bawb.	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae hormonau yn parhau i effeithio ar iechyd emosiynol a chorfforol yn ystod oedolaeth.
	Y sgiliau sydd eu hangen i reoli hunanofal, hylendid personol a phwysigrwydd lles mislif ac iechyd atgynhyrchiol i bawb.	Gwybodaeth a dealltwriaeth- o achosion, symptomau ac effaith cyflyrau a salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd rhywiol ac atgynhyrchiol fel ffrwythlondeb a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a'u cysylltu ag iechyd a lles mislif.
	Y gallu i ddeall bod llawer o ffynonellau dibynadwy o wybodaeth a chymorth.	Y gallu i nodi ffynonellau dibynadwy o wybodaeth a sut i ofyn am gymorth a gofalu amdanoch chi eich hun.

Llinyn 3: Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth

Mae'r llinyn hwn yn rhoi cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu a phrofi bod angen i bawb gael gofal er mwyn tyfu a ffynnu. Mae gan bob dysgwr yr hawl i fod yn ddiogel a chael ei barchu mewn amgylchedd sy'n darparu ar gyfer hynny. Mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'r effaith y mae gwahanol fathau o ymddygiad yn ei chael ar eraill – yr hyn rydych yn ei ddweud a'r hyn rydych yn ei wneud – a phwysigrwydd hunanreoleiddio er mwyn sicrhau bod hawliau pob dysgwr yn cael eu parchu. Dylid addysgu dysgwyr bod eu hawl i fod yn rhydd rhag unrhyw fath o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod yn cael ei galluogi gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt sy'n eu cadw'n ddiogel, a thrwy fesurau diogelu cyfreithiol sy'n bodoli i bawb yn cynnwys ystyriaeth o Ddeddf (Cymru) Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015. Bydd dysgwyr yn gynyddol yn meithrin

dealltwriaeth o'r cysyniad o gydsyniad, ac yn teimlo'n hyderus i ofyn am y cymorth sydd ar gael os byddant yn pryderu am eu diogelwch. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu'r gallu i ymddwyn mewn ffordd gefnogol a llawn parch

Cynnwys sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwr

Mae'r cynnwys yn y tabl isod yn dangos y blociau adeiladu cynnydd ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n broses barhaus. Wrth i ddysgwyr symud ymlaen yn eu dysgu, dylent adeiladu ar ddysgu blaenorol – gan gadarnhau a chryfhau'r un ymagweddau, gwybodaeth a sgiliau, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd, perthnasol. Mae hyn yn wahanol iawn i gael gwybodaeth am bynciau heb gyd-destun ac yna symud ymlaen at ddeunydd arall.

Wrth sôn am ddarpariaeth addysgol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, cyfeirir at yr hyn a addysgir yn glir yn ogystal â'r hyn sydd wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol.

Dylid defnyddio'r datganiadau yn y tabl ar y cyd â'r disgrifiadau dysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad lechyd a Lles, sy'n rhoi mwy o fanylion ynghylch yr hyn a ddysgir.

Datblygiad cynnar (tua 3-7 oed)	Blynyddoedd datblygiad (tua 8-11 oed)	Llencyndod (tua 12-16 oed)
Mae'r amgylchedd dysgu yn datblygu a'r addysgu yn canolbwyntio ar:		
Y gallu i ryngweithio ag eraill mewn ffordd deg a llawn parch.	Dealltwriaeth o bwysigrwydd tegwch a pharch ym mhob ymddygiad rhyngpersonol, gan gynnwys ymddygiad ar-lein a nodi pryd i herio a cheisio cymorth.	Ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at eraill, gan gynnwys sut rydym yn ymateb i ymddygiadau gwahaniaethol, amharchus a niweidiol, gan gynnwys ymddygiad ar-lein.
Y buddiannau sy'n gysylltiedig â gofyn am help ac i bwy y dylid gofyn am gymorth.	Sut i ofyn am gymorth i chi'ch hun a rhoi cymorth i eraill.	Y gallu i nodi ffynonellau dibynadwy o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys ffynonellau ar-lein, ac i ddysgu amdanoch chi eich hun, teimladau, cyrff a chydberthnasau ag eraill.
Ymwybyddiaeth o'r hawl i breifatrwydd, ymreolaeth gorfforol a gallu cydnabod yr hyn sy'n iach/nad yw'n iach, yr	Dealltwriaeth o'r hawl i breifatrwydd, ymreolaeth gorfforol a phwysigrwydd cydsyniad a chadw'n	Dealltwriaeth o natur cydsyniad mewn cydberthnasau rhywiol o fewn cyd-destunau

hyn sy'n ddiogel/anniogel a sut i ofyn am help.	ddiogel, gan gynnwys ar-lein.	gwahanol, gan gynnwys ar-lein.
	Ymwybyddiaeth bod deddfau ar waith i'n diogelu rhag gwahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod	Dealltwriaeth bod deddfau ar waith i'n diogelu rhag pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod.

Gwneud cysylltiadau o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd) a rhyngddynt

Dylai ymarferwyr sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu dysgu ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ym mhob rhan o'r cwricwlwm, gan gynnwys ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (Meysydd).

Mae'r datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Iechyd a Lles yn rhoi manylion am wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac mae'r disgrifiadau dysgu yn nodi'r cynnydd ym mhob datganiad. Dylai ymarferwyr ddefnyddio hyn wrth gynllunio a datblygu darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym maes Iechyd a Lles

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydym ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles
- Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles

Dylai ymarferwyr edrych am gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ym mhob un o'r Meysydd eraill. Er enghraifft, mae rhyngddibyniaeth glir â'r agweddau biolegol a thechnolegol ym Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg a natur gymhleth cymdeithasau dynol yn y Maes Dyniaethau.

Atodiad

Rhestr Termiau

Ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth	(awareness, knowledge and understanding) Yn natblygiad cynnar, bydd dysgwyr yn cael profiad o ddulliau cyfannol o ystyried cydberthnasau ac yn cael eu cefnogi i ffurfio dealltwriaeth ohonynt eu hunain yn y byd. Bydd ymwybyddiaeth y dysgwyr yn cynyddu wrth iddyn nhw symud ymlaen yn eu dysgu gyda cysyniadau'n cael eu cyflwyno'n raddol yn unol a datblygiad y dysgwr. Wrth symud drwy'r continwum, bydd dysgwyr yn cael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth, a phrofiad yn aml, o'r gwahanol themâu sy'n rhan o gynnwys cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
Cydsyniad	(Consent) Cydsyniad yw pan fydd un person yn cytuno i berson arall wneud rhywbeth sy'n effeithio arno. Mae'n bwysig i bobl ofyn am gydsyniad cyn iddynt wneud rhywbeth sy'n effeithio ar berson arall. Mae hefyd yn bwysig parchu penderfyniad person – os yw'n dweud 'na' wrth rywbeth, yna ni ddylai'r person arall fwrw ymlaen â'i weithred. Mewn datblygiad cynnar, bydd y dysgwyr yn dechrau deall cydsyniad drwy drin ei gilydd â charedigrwydd, ystyriaeth a pharch. Byddant yn dysgu am ofod personol a ffiniau mewn trafodaethau am ofod, teganau, llyfrau ac ati ac yn dangos parch a dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng cyswllt corfforol priodol ac amhriodol neu anniogel, a chyswllt arall. Mae'r rhain yn rhagflaenu addysgu am gydsyniad sy'n digwydd yn yr ysgol uwchradd. Mewn perthynas iach, bydd y sawl sy'n gofyn fel arfer yn parchu'r penderfyniad ai 'ie' neu 'na' yw'r ateb. Efallai y byddant yn cwestiynu'r penderfyniad ond dylent barhau i barchu'r dewis personol a wneir. Mewn perthynas afiach, efallai na fydd y sawl sy'n gofyn yn parchu'r penderfyniad. Efallai y byddant yn ceisio perswadio unigolion i newid eu meddwl, gan ddefnyddio pwysau i wneud yr hyn y mae arnynt ei eisiau, neu anwybyddu'r penderfyniad. Mae cydsyniad ar-lein yn golygu bod rhywun wedi rhoi caniatâd i rywbeth ddigwydd neu wedi cytuno y gall eraill wneud rhywbeth gyda'r data maen nhw wedi'i rannu. Er enghraifft, efallai y gofynnir i'r dysgwyr a ellir tynnu llun ohonynt, a gofyn am gydsyniad yw hyn. Mae angen i ddysgwyr ddeall goblygiadau cytuno neu beidio â chytuno i gwestiynau o'r fath. Ar-lein, mae dysgwyr nid yn unig yn llywio eu perthnasoedd ond hefyd y gwahanol apiau a gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.
Cydberthnasau	(Relationships) Gall y rhain fod yn gydberthnasau rhyngbersonol neu'n gydberthnasau â'r hunan. Mae cydberthnasau rhyngbersonol yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r rhyngweithrediadau rhwng dau unigolyn neu fwy. Mae cydberthnasau â'r hunan yn cyfeirio at y gydberthynas

	sydd gennych gyda chi'ch hun. Mae cysylltiadau annatod rhwng y ddau fath o gydberthynas ac mae'r rhain yn newid dros amser. Gallant fod yn gydberthnasau teuluol, ysbrydol, rhamantaidd, platonig neu rywiol.
Rhywioldeb	(Sexuality) Agwedd ganolog ar fodau dynol. Mae'n cynnwys cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaethau a rolau o ran rhywedd, rhyw, atgynhyrchu ac agosatwydd. Caiff rhywioldeb ei brofi a'i fynegi drwy feddyliau, credoau, ymddygiadau a chydberthnasau.
Dull Ysgol Gyfan	(Whole School approach) Proses effeithiol o gysylltu pob elfen o gwricwlwm, polisïau, staff a chymuned lleoliad addysg yw "dull ysgol gyfan". Mae'n annog y broses o gyfleu ac atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson ac yn cynnig cymorth cyfannol o ansawdd uchel i ddysgwyr. Dylai hyn hefyd gynnwys sut mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyfrannu at ddull ysgol gyfan o fynd i'r afael ag iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. Er enghraifft, efallai y bydd ysgol yn awyddus i ystyried sut y gall amgylchedd cefnogol gynnig cyfleoedd i atgyfnerthu negeseuon am gydberthnasau cynhwysol neu annog dysgwyr i ofyn am help a chymorth. Mae'r fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol ar gael yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-a-meddyliol.pdf
Cynhwysol	(Inclusive) Addysg gynhwysol yw'r broses o atgyfnerthu capasiti'r system addysg i gyrraedd pob dysgwr. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysol yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a gwahaniaeth ar draws amrediad o hunaniaethau sy'n gysylltiedig â chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb, a bod yr amrywiaeth hon yn ffynhonnell cryfder ac yn greiddiol i gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn.
LHDTC+	(LGBTQ+) Mae LHDTC+ yn cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol/traws, cwiar neu bobl sy'n cwestiynu. Mae'r + yn cyfeirio at lythrennau eraill y gellir eu hychwanegu i gynnwys grwpiau a hunaniaethau eraill.
Tegwch	(Equity) Triniaeth deg a diduedd, gan gynnwys triniaeth gyfartal neu driniaeth wahaniaethol er mwyn unioni anghydbwysedd o ran hawliau, buddiannau, rhwymedigaethau a chyfleoedd.
Rhywedd	(Gender) Fe'i defnyddir yn aml i nodi a yw rhywun yn ystyried ei hun yn fenywaidd, yn wrywaidd neu'n anneuaidd. Yn aml, mae rhywedd yn cyfeirio at y normau a'r gwahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol all cael eu hystyried sydd rhwng dynion, menywod a phobl anneuaidd.

	Mae pobl yn aml yn dod o hyd i ymdeimlad pwysig o hunaniaeth yn y rhain ond gallant hefyd barhau a gorfodi anghydraddoldebau a niwed drwy stereoteipiau.
Trais ar sail rhywedd	(Gender based violence) (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (b) anffurfio organau cenhedlu benywod; (c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio); https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh
Amrywiaeth	(Diversity) Deall bod pob unigolyn yn unigryw, a chydabod ein gwahaniaethau unigol. Gall y rhain ymwneud â hil, credoau crefyddol, ethnigrwydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws economaidd-gymdeithasol, oedran neu alluoedd corfforol.
Nodweddion gwarchodedig	(Protected characteristics) Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, anabledd, aibennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.
Rhyw	(Sex) Caiff ei bennu ar gyfer unigolyn ar sail nodweddion rhywiol sylfaenol (organau cenhedlu) a swyddogaethau atgynhyrchiol. Nid yw hunaniaeth o ran rhywedd rhai pobl yn cyfateb i'r rhyw a bennwyd ar eu cyfer pan gawsant eu geni. Weithiau, defnyddir y termau 'rhyw' a 'rhywedd' yn gyfnewidiol i nodi a yw rhywun yn fenywaidd, yn wrywaidd neu'n anneauaidd.
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	(Violence against women, domestic abuse and sexual violence - VAWDASV) Gallai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, er ei bod yn meithrin agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol, hefyd roi cyfle i ddysgwyr ystyried nodweddion cydberthnasau nad ydynt yn iach. Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyffwrdd â llawer o fywydau. Mae yna oblygiadau difrifol iawn i blant a phobl ifanc, sydd eu hunain yn ddiodefwr mewn aelwydydd lle y ceir cam-drin domestig. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd meddyliol a chorfforol a'u lles yn gyffredinol. Mae'n effeithio ar gydberthnasau â'u teulu a chyfoedion, a'r potensial i fwynhau cydberthnasau iach, hapus a llawn parch yn y dyfodol; a gall effeithio ar gyrhaeddiad addysgol nawr ac yn y dyfodol. Bydd yna blant, pobl ifanc a staff yn eich ysgol sy'n dioddef yn sgil cam-drin menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu sydd mewn perygl o gyflawni'r gamdriniaeth hon, neu sydd wedi ei dioddef neu ei chyflawni yn y gorffennol. Dylai ysgolion a lleoliadau fod yn gyfrifol am sicrhau bod eu dysgwyr a'u staff yn ddiogel ac yn iach.

	Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfle i Gymru arwain y ffordd o ran gwaith ataliol. Mae lleoliadau addysgol yn cynnig amgylchedd lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a llawn parch drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Mae mabwysiadu dull ysgol gyfan sy'n cynnwys addysg ataliol ac sydd, yn ogystal, yn cynnwys y gymuned ehangach yn hollbwysig. Datblygwyd Canllaw Arfer Da ar gyfer Dull Addysg Gyfan Llywodraeth Cymru o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru ar y cyd â Cymorth i Ferched Cymru. Bwriedir iddo fod yn becyn cymorth ymarferol a defnyddiol ar gyfer cymhwyso egwyddorion dull addysg gyfan o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n cydnabod pa mor bwysig ydyw bod lleoliadau addysg yn cynnig amgylchedd lle y gall agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a llawn parch gael eu meithrin. https://llyw.cymru/drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-vawdasv-pecyn-addysg Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ymarferol i lywodraethwyr ysgolion ar yr angen i ddatblygu polisi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; sut i nodi arwyddion o gam-drin a ble i gael cymorth iddyn nhw eu hunain, eu cydweithwyr neu eu dysgwyr. https://llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-canllawiau-i-lywodraethwyr
--	--

This page is intentionally left blank

Agenda

Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (Cymru) National Advisory Panel for Religious Education (Wales)

LLEOLIAD/LOCATION (Platfform digidol/ Digital platform) Zoom (Hosting LA for WASACRE - Powys)	LLEOLIAD/VENUE N/A	GWEFAN/WEBSITE N/A	EIN CYSWLLT/OUR CONTACT: Libby.jones@wrexham.gov.uk libbyj41@hwbcymru.net Tel: 07795 097294	
DYDDIAD/DATE AMSER/TIME	15 June 2021 1pm – 3.30pm			
PRESENNOL/PRESENT				
YMDDIHEURIADAU/APOLOGIES				
ROTA COFNODION/MINUTES ROTA	Spring 2018 Rachel Samuel Summer 2018 Paula Webber Autumn 2018 Rachel Samuel	Spring 2019 Maggie Turford Summer 2019 Libby Jones Autumn 2019 Phil Lord	Spring 2020 Summer 2020 Autumn 2020 – Libby Jones	Spring 2021 – Libby Jones Summer 2021 – Volunteer required

Tudalen 55

EITEMAU AGENDA/AGENDA ITEMS	NODIADAU/NOTES	GWEITHREDU/ACTION	PWY?/ PRYD?/WHO?/WHEN?
1. sylfaen gyffwrdd a chroeso/ <i>Touch base and Welcome</i>			
2. Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori - Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a/ <i>Welsh Government Consultation Document - Curriculum for Wales Religion, Values and Ethics (RVE) guidance</i>	https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-05/consultation-document-curriculum-for-wales-religion-values-and-ethics-guidance.pdf		

3. Dysgu Proffesiynol ar gyfer CGM?/ <i>Professional Learning for RVE</i>			
4. Cyflwyniadau PYCAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru/ <i>NAPfRE/WASACRE presentations</i>	Summer 2021: - Welsh Government Consultation on the Curriculum for Wales Guidance on RVE Autumn 2021: Spring 2022		
5. Diweddariadau/ <i>Updates</i> <i>Local authorities</i> <i>AREIAC</i>: Paula Webber <i>Catholic Education Service (CES)</i>: Angela Keller <i>Church in Wales (CinW)</i>: Liz Thomas <i>Estyn</i>: Gwawr Meirion <i>Further Ed</i>: Vacant <i>Higher Education (Primary)</i>: Sue Pellew James <i>Higher Education (Secondary)</i>: Rachel Bendall <i>Interfaith Council</i>: Vacant <i>REMW</i>: Paul Morgan <i>St Giles Centre</i>: Libby Jones <i>St Mary's Centre</i>: Tania ap Sion <i>WJEC</i>: Lynda Maddock	Please keep this brief and avoid repetition of matters already discussed in previous agenda items.		
6. Cofnodion cyfarfod Gwanwyn 2019/ <i>Notes of Autumn 2020 meeting</i>	Matters arising		
7. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd/ <i>Appointment of Chair and Vice Chair</i>	Paula Webber will take the position of Chair. Volunteers for Vice Chair required		
8. U.F.A/ <i>A.O.B</i>	To be agreed with the Chair		

This page is intentionally left blank



**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru,
Rhithwir, drwy Microsoft Teams
Dydd Mawrth, 23 Mawrth, 2021
10.15a.m. – 1.00p.m.**

Yn bresennol

Ynys Môn / Anglesey Rheinallt Thomas (RT) Gwyneth Mai Hughes (GH) Dylan Rees (DR) Blaenau Gwent Paula Webber (PW) Kathy Riddick (KW) Chris Abbas (CA) John Meredith (JM) Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Edward J. Evans (EE) Angela Hill (AH) Alice Parry (AP) Caerffili/ Caerphilly Paula Webber (PW) Janet Jones (JJ) Cyng John Taylor (JT) Paul Warren (PWn) Cyng Michael Gray (MG) Rebecca Barrett (RB) Janet Jones (JJ) Martyn Western (MW) Carin Quinn (CQ) Teresa Parry (TP) Caerdydd / Cardiff Angela Hill (AH) Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Kimberley Perry (KP) Cyng Gwyneth Thomas (GT) Ceredigion Cyng Keith Evans (KE)	Conwy Phil Lord (PL) Nicholas Richter (NR) Sir Ddinbych / Denbighshire Phil Lord (PL) Janet Axworthy (JA) Cyng Dave Mackie (DM) Sir y Fflint / Flintshire Vicky Barlow (VB) Gwynedd Dashu (D) Paul Rowlinson (PR) Eurfryn Davies (ED) Selwyn Griffiths (SG) Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Angela Hill (AH) Sir Fynwy / Monmouthshire Paula Webber (PW) Louise Brown (LB) Sue Cave (SC) Suzanne Gooding (SG) Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot Rachel Samuel (RS) Lee Workman (LW) Debbie Thomas (DT) Tim Hewitt (TH) Casnewydd / Newport Paula Webber (PW) Neeta Baicher (NB) Huw Stephens (HS)	Sir Benfro / Pembrokeshire Cyng Huw George (HG) Amanda Lawrence (AL) Powys Cyng. Ange Williams (AW) Rhondda Cynon Taf Angela Hill (AH) Martyn Silezin (MS) Matthew Maidment (MM) Abertawe / Swansea Alison Lewis (AL) Mohsen El-Beltagi (ME) Torfaen Paula Webber (PW) Marilyn Frazer (MF) Sian Lewis (SL) Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Angela Hill (AH) Marged Williams (MW) Edward Williams (EW) Kalpana Natarajan (KN) Wrecsam / Wrexham Libby Jones (LJ) Tania ap Siôn (TaS) Pippa Virdee-Lace BL)	Sylwedyddion: REMW Paul Morgan (PM) CBAC Andrew Pearce (AP) ESTYN Gwawr Meirion (GM) Llywodraeth Cymru Peter Kennedy (PK) REC Dave Francis (DF) Eglwys yng Nghymru Elizabeth Thomas (ET) Y Gwasanaeth Addysg Catholig Angela Keller (AK) Cymwysterau Cymru Philip Blaker (PB) Catrin Verrall (CV) Cofnodion Gill Vaisey (GV) Eraill - heb wybod a pha CYSAG mae'n gysylltiedig Cyng J M Williams Primary Education
---	--	---	---

1. Cofnodion a chroeso

Croesawodd RS bawb i'r cyfarfod ac esboniodd y protocol ar gyfer y cyfarfod rhithiol hwn.

Cafwyd croeso gan y Cynghorydd John Taylor, Cadeirydd CYSAG Caerffili, yr awdurdod oedd yn lletya'r cyfarfod. Mynegodd ei siom na allem fod yng Nghaerffili yn y cawd ond er hynny, roedd yn bleser ganddo'n croesawu a dymunodd yn dda i'r cyfarfod. Rhoddodd gydnabyddiaeth i'r gwaith anhygoel y mae ysgolion ac athrawon wedi bod yn ei wneud mewn amgylchiadau mor anodd.

Diolchodd Cyng Taylor i Rebecca Barnet am fod yn glerc effeithiol ac effeithlon i GYSAG Caerffili, ochr yn ochr â Paula Webber, sy'n rhoi cefnogaeth broffesiynol. Mynegodd ei gefnogaeth i'r bwriad o gyfethol dau berson ifanc a fyddai'n ymuno â'r CYSAG cyn hir i roi llais disgyblion i'r pwyllgor.

Cafwyd croeso hefyd gan Paul Warren, Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion. Eglurodd ei fod ef yn gyn bennaeth ac yn sylweddoli'n llwyr yr heriau enfawr sy'n wynebu athrawon ar hyn o bryd a dros y misoedd diwethaf. Cydnabuwyd fod athrawon wedi bod nid yn unig yn rheoli dysgu o bell yn ystod y pandemig ond ar yr un pryd yn rheoli'r newid cwricwlwm a'r cynllunio mae hynny'n ei olygu. Roedd yn sylweddoli hefyd yr effeithiau ar ddisgyblion sy'n cael graddfeydd amrywiol o gefnogaeth wrth ddysgu o gartref a'r effaith ar y gymuned ehangach hefyd.

Nododd y newidiadau sydd ar droed i AG sy'n mynd i fod yn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ac yn orfodol i bob disgybl 3 - 16 oed. Heb hawl yn y dyfodol i rieni dynnu eu plant yn ôl, roedd yn sylweddoli ei bod yn hanfodol fod CGM yn wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Bydd hyn yn creu angen am Ddatblygu Proffesiynol Parhaus yn fwy nag erioed.

Soniodd Paul am yr angen i aelodau CYSAG feddu ar y sgiliau i lywio a ffurfio polisi ar lefel genedlaethol. Diolchodd i bawb am wneud eu gorau dros ddysgwyr ledled Cymru.

2. Myfyrdod tawel

Arweiniodd RS yr aelodau drwy fyfyrdod ar y flwyddyn a fu, gan sylweddoli mai'r diwrnod hwn, union flwyddyn yn ôl, oedd diwrnod cyntaf y cyfnod clo yn sgil Covid-19. Cydnabu bawb a oedd wedi colli eu bywydau - sut roedd y nifer wedi cynyddu yn y DU o 364 ym mis Mawrth 2020 i'r ffigwr swyddogol heddiw, sef 126,172. Myfyriodd ynghylch effaith y pandemig, yn gorfforol ac yn emosiynol, ar gynifer o bobl.

Soniodd RS am 'y golau ar ddiwedd y twnnel' gyda rhoi'r rhaglen frechu ar waith. Rhoddodd glod i'r holl weithwyr iechyd a'r gweithwyr allweddol am y cyfan a wnaethant ac y maent yn parhau i'w wneud yn eu gwaith hollbwysig.

Gwahoddodd RS yr aelodau i nodi munud o dawelwch am hanner dydd, yn unol â chynllun Marie Curie i wneud heddiw yn ddiwrnod cofio. Am 8 p.m., anogir pobl i ddal kannwyll ar garreg eu drws, tra bydd adeiladau ledled y wlad yn cael eu goleuo'n felyn.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lucy Grant a John Mitson sy'n Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Jennifer Harding - CYSAG Abertawe, Rita Fiona Thomas - CYSAG Castell-nedd Porth Talbot, Tudor Thomas - CYSAG Sir Fynwy.

4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020

Cytunwyd fod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir o'r cyfarfod yn amodol ar ychwanegu enw'r Cyng Keith Evans at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol.

Diolchodd RT am y manylder oedd yn y cofnodion ac am y ffaith iddynt fod yn barod mor gyflym ar ôl y cyfarfod.

5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC

Eitem 7 – Dysgu Cyfunol – adroddodd RS fod PYCAG wedi bod yn ystyried sut i symud ymlaen ar hyn. Rhoddir diweddariad yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

Eitem 10 - cafwyd pryderon gan Ddyneiddwyr Cymru am aelodaeth ar GYSAGau. Mewn ymateb i hyn, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at bob ALI yn eu hatgoffa am y llythyr gan LIC yn datgan y gellir rhoi lle i gynrychiolwyr o gredoau anghrefyddol megis dyneiddiaeth, ar Bwyllgor A.

6. Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru (CC) (Alice Parry)

<https://qualificationswales.org/english/qualified-for-the-future---have-your-say/>

Rhoddodd AP drosolwg o'r ymgynghoriad cyfredol ar y cymwysterau TGAU newydd.

Adroddodd fod Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC wedi dechrau ystyried ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith sy'n athrawon wedi ystyried hyn i ddechrau, ac yna cafwyd cyfarfod gyda'r Cyngor Addysg Grefyddol i rannu barn.

Nododd AP fod yr ymgynghoriad yn cynnwys tri phrif gynnig ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau:

1. Adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol.

Nododd AP y byddai angen sicrhau y gellir cymharu pob un o'r TGAU. Dylid rhoi'r un dyraniad amser i'r pynciau TGAU i gyd. Byddai CCYSAGauC yn dymuno fod TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cael ei gyhoeddi yr un pryd â'r pynciau eraill. Mae angen ystyried CGM statudol ac Astudiaethau Crefyddol opsiynol. Mae angen i'r fanyleb fynd i'r afael â chynhwysiant - dylai fod yn drylwyr ac yn heriol ond hefyd rhaid iddi fod yn hygyrch i bob dysgwr. Yn hytrach na bod y cwrs Llawn neu Fyr yn 100% arholiad, byddai asesu parhaus gyda dull dysgu digidol a chyfunol yn well. Yn ogystal, mae angen i'r TGAU fod yn ddigon heriol fel bod myfyrwyr yn barod i fynd ymlaen at astudio pellach megis Safon Uwch.

2. Os yw'n ymarferol, creu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol.

Mae AP yn sylweddoli y gallai hwn fod yn gwrs poblogaidd. Fodd bynnag, bydd angen iddo fod yn eglur ac yn wahanol i bynciau eraill. Er y deellir y gall fod cysylltiadau posibl rhwng disgyblaethau, mae angen i'r cysylltiadau hyn fod yn gyflenwol ac nid yn gystadleuol. Mae angen i bob pwnc fod ar wahân. Ni ddylid caniatáu cuddio Astudiaethau Crefyddol o fewn Astudiaethau Cymdeithasol.

Mae angen i Gymwysterau Cymru ymgynghori â'r Rhanddeiliaid a sicrhau fod arbenigwyr yn cael eu defnyddio i greu'r cymwysterau newydd.

3. Os yw'n ymarferol, creu TGAU integredig newydd mewn Dyniaethau.

Ar gyfer y dull hwn, awgrymodd AP y byddai angen sicrhau fod y cysylltiadau yn gyflenwol a bod y pynciau gwahanol sy'n rhan o'r Dyniaethau yn dal i allu cael eu gweld ar wahân. Mae cyfle yma i wreiddio Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig mewn TGAU. Byddai dull amlochrog trwy amryw o safbwyntiau yn fuddiol cyn belled â bod y gwahaniaethau rhwng y pynciau eu hunain yn dal yn amlwg.

Nodwyd nad yw rhai ysgolion yn bosibl yn addysgu mewn modd thematig felly ni fydden nhw eisiau arholiad Dyniaethau. Gellid ymdrin â'r CGM statudol mewn cymhwyster Dyniaethau integredig.

Bydd ymatebion pellach gan y Pwyllgor Gwaith ac aelodaeth CCYSAGauC yn ehangach yn cael eu hystyried wrth ffurfio ymateb terfynol CCYSAGauC i'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei anfon i Gymwysterau Cymru erbyn 9 Ebrill 2021, cyn dyddiad cau 16 Ebrill. Bydd crynodeb o'r ymateb yn cael ei rannu gyda phob CYSAG pan mae ar gael.

Codwyd cwestiynau a chawsant eu hateb gan wahanol aelodau.

Dywedodd LB fod ei ChYSAG hi wedi edrych ar yr ymgynghoriad. Roedd PW, ymgynghorydd y CYSAG, wedi darparu ymateb drafft i'w ystyried. Roedd athrawon, yn arbennig, yn pryderu am TGAU Dyniaethau gan ddweud pe na bai disgyblion yn cael y cyfle i arbenigo mewn pynciau penodol, byddai hyn yn eu hatal rhag gwneud Safon Uwch neu gymhwyster pellach yn y pwnc e.e. Astudiaethau Crefyddol. Awgrymodd LB fod athrawon yn dymuno cadw arholiadau pynciau ar wahân.

Holodd PL a fyddai Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig yn cael eu hadlewyrchu yn y TGAU newydd. Cadarnhaodd PW y byddent.

Awgrymodd PL hefyd y byddai'r ddarpariaeth arholiad gynyddol yn y Dyniaethau yn ymdrin â chryn dipyn o gynnwys ac mae angen bod yn ofalus i beidio ag ailadrodd ar draws yr arholiadau.

Cadarnhaodd PW fod dal angen i lawer mwy o gynllunio ddigwydd ar gyfer y cymwysterau newydd. Esboniodd mai'r rheswm y mae CC yn dilyn y llwybr hwn yw i gynnwys y sybsidiaredd a fydd gan ysgolion. Bydd angen darparu ystod o opsiynau arholiad i fod yn addas i'r dewisiadau / dulliau gwahanol o ddylunio a darparu'r cwricwlwm y bydd ysgolion yn eu mabwysiadu.

Dywedodd DF ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfarfod diweddar gyda CCYSAGauC yr oedd ef a Deborah Weston wedi eu gwahodd i fynychu ar ran y Cyngor Addysg Grefyddol i drafod y cymwysterau newydd. Yn sgil hynny mae'r Cyngor yn ysgrifennu at yr holl sefydliadau sy'n

aelodau i'w gwneud yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a'u hannog i ymateb yn eu ffordd eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Atgoffodd EE yr aelodau fod CCYSAGauC wedi cyfarfod CC dros nifer o flynyddoedd. Yn y gorffennol mae CCYSAGauC wedi awgrymu dau fath o TGAU – TGAU Dyniaethau a hefyd ail TGAU Dyniaethau sydd â phwnc arbennig megis Astudiaethau Crefyddol. Cynigiodd y dylid atgoffa CC o'r awgrym hwn.

Holodd HS am yr amserlen o ran CYSAG yn sefydlu Maes Llafur Cytunedig newydd a pha gymwysterau newydd fyddai ar gael.

Eglurwyd y bydd yn rhaid datblygu Meysydd Llafur Cytunedig cyn ein bod yn gwybod i sicrwydd sut bydd y cymwysterau newydd yn edrych – er bydd yna ryw faint o ymwybyddiaeth gan y byddant yn seiliedig ar y cwricwlwm newydd.

Dylai Cynadleddau y Maes Llafur Cytunedig gael eu cynnal yn 2022. Cyhoeddir y cymwysterau newydd yn 2024 i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2025 a'r arholiadau cyntaf yn 2027.

Dywedodd MW ei fod yn croesawu llwybrau ehangach o feddwl ac athroniaeth ond yn gobeithio nad yw AC yn cael ei lastwreiddio ormod.

Yn ôl KR, mae'r mater o Gynadleddau y Maes Llafur Cytunedig yn bwynt pwysig. Os yw ysgolion yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn 2022, dylai pob CYSAG drefnu Cynhadledd cyn Medi 2022 fel bod ysgolion yn ymwybodol o ofynion CGM lleol ac y gallant gynnwys CGM wrth gynllunio'r cwricwlwm.

7. Diweddariad a lansio gwefan CCYSAGauC (Tania Ap Siôn)

Rhoddodd TapS ddiweddariad ar gynnydd gyda'r wefan newydd. Dangoswyd 'tudalen gartref' y safle drwy rannu sgrin. Mae rhan Saesneg y wefan wedi'i chwblhau erbyn hyn. Mae'r ochr Gymraeg wrthi'n cael ei datblygu. Mae'r ddewislen yn cadw'r un strwythur â'r wefan bresennol. Mae'r safle newydd yn fwy ffres a chyfoes ac yn hawdd ei lywio dros 5 neu 6 o feysydd.

Mae botymau Twitter a Facebook yn caniatáu integreiddio â'r Cyfryngau Cymdeithasol sy'n rhan bwysig o barhau i godi proffil a hygyrchedd CCYSAGauC.

Bydd y safle'n mynd yn fyw pan mae'r rhannau yn y ddwy iaith wedi'u cwblhau. Nodwyd fod angen ystyried gallu mynd ato drwy chwiliad Google yn Gymraeg.

Diolchodd TapS i bawb a oedd wedi bod â rhan mewn datblygu'r safle ac yn arbennig i waith ardderchog Nick Evans sydd wedi ymgymryd â'r prosiect hwn i CCYSAGauC.

8. Materion llywodraeth Cymru:

Cyfarfodydd (Rachel Samuel)

Cyfeiriodd RS at adroddiad cryno y cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a oedd wedi'i gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod heddiw.

Cynhaliwyd dau gyfarfod ers cyfarfod diwethaf CCYSAGauC – 22.10.20 a 17.12.20. Codwyd nifer o gwestiynau ac ymatebwyd iddynt:

- Diweddariad ar Fframwaith AG – mae'r cwestiwn hwn yn dal i fynd rhagddo a'r ateb yw y bydd canllawiau ar gael cyn gynted â phosibl – bydd Libby Jones yn rhannu diweddariad pellach yn ystod cyfarfod CCYSAGauC.
- Effaith Covid 19 – fe'i gwnaed yn glir fod pob deddfwriaeth yn parhau yn ôl y bwriad ac na fyddai oedi i'r Bil Cwricwlwm.
- Ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – cadarnhawyd y camau nesaf ar waith y pwyllgor a gellir gweld y canlyniadau o fewn y gwelliannau i'r bil cwricwlwm ac asesu fel y rhannwyd gan Paula Webber heddiw.
- Cynnwys datblygiad Ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, corfforol a chymdeithasol disgyblion yn y canllaw – gwnaed cais i gyfeirio at hwn o fewn y dogfennau i sicrhau meddwl cydgysylltiedig, hyd yn oed pan nad yw'n cael ei grybwyll. Nid yw'r term mwyach yn yr eirfa. Cytunwyd bod angen ystyried hyn ymhellach, ond nid oedd yn glir pwy fyddai'n gwneud hyn.
- Diolchodd LIC i CCYSAGauC am y papurau briffio a baratowyd. Cynigiodd Edward Evans, ar ran CCYSAGauC, edrych ar sefyllfa addoli ar y cyd yn 10/94 nad yw'n cael ei ystyried yn y bil newydd ac felly fydd yn dal yn ofyniad cyfreithiol. Diolchwyd am gwblhau'r papur hwn.
- Papur briffio dyddiedig Chwefror 2020 - mewn ymateb i hwn, cadarnhaodd LIC fod cyllid wedi mynd i'r consortia ar gyfer Datblygu Proffesiynol. O ganlyniad, yr ALLau unigol fyddai'n penderfynu a oedd angen iddynt gyflogi ymgynghorwyr. Awgrymodd LIC ein bod yn siarad yn uniongyrchol â CCAC am y sefyllfa hon.
- Trafodaeth ar y llythyr gan y Gweinidog dyddiedig 16 Tachwedd 2020 yn arbennig 'bydd canllaw pellach i gefnogi Awdurdodau Lleol, CYSAGau a Chynadleddau Maes Llafur Cytunedig yn cael ei ddatblygu dros y misoedd sy'n dod. Fe holon ni hefyd beth sy'n gwneud grŵp gydag argyhoeddiad anghrefyddol penodol yn grŵp 'swyddogol' sydd angen cynrychiolaeth ar GYSAG. Fe'n hysbyswyd y gallai hyn gael ei esbonio yn y fframwaith, o bosibl gweithgor cyd-awduro er mwyn rhoi'r canllawiau angenrheidiol i ALLau fel y gall pob un wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- Diweddariadau ar gymwysterau yn awr ac yn y dyfodol - mae hwn eto yn gwestiwn parhaus gyda'r holl ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd a newidiadau i arholiadau TGAU a lefel A eleni.
- Mynediad i HWB i CCYSAGuC – Cytunwyd y byddai LIC yn ymchwilio i hyn ac yn trefnu i aelod o dîm HWB siarad â ni.

Fframwaith AG (Libby Jones)

Esboniodd LJ fod toriad hir wedi bod mewn gwaith ar y Fframwaith CGM oherwydd sefyllfa Covid-19. Yn y diwedd craffwyd ar y canllawiau drafft ym mis Ionawr 2021 ac fe'i gwelwyd gan y Bwrdd Rhaglen. Roedd rhai gwelliannau wedi cael eu hawgrymu ac roedd grŵp o arbenigwyr yn cynnwys LJ ei hun, wedi gweithio ar hwn ers Chwefror 2021. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y Fframwaith yn dechrau yng nghanol Mai ac yn para am 8 wythnos. Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi hyd at fis Medi / Hydref 2021. Bydd y Fframwaith terfynol ar gael ym mis Rhagfyr 2021. Felly, bydd angen i GYSAGau gynnal

Cynadleddau y Maes Llafur Cytunedig o fis Rhagfyr 2021. Adroddodd LJ fod Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig Wrecsam yn cyfarfod ym mis Ionawr 2022.

Mewn ymateb i gwestiwn gan PW, esboniodd PK fod y Bwrdd Rhaglen yn grŵp arweiniad mewnol ehangach. Dywedodd PW ei bod yn teimlo'i bod yn bwysig fod y Fframwaith newydd yn mynd at y Bwrdd Cydlyniant i sicrhau ei fod yn unol â'r cyfan o'r cwricwlwm newydd. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig gwneud yn siŵr fod yn Fframwaith yn cyd-fynd â Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig.

Ychwanegodd LJ fod LIC, ar 18 Mawrth, wedi anfon copi o'r Fframwaith Drafft i bob un o'r 22 Cyfarwyddwr Addysg. Mae LIC yn gwahodd ymatebion i'r drafft gan yr ALI erbyn 9 Ebrill 2021. Nododd yr aelodau fod hon yn amserlen afrealistig o ystyried y bydd y staff allweddol ar eu gwyliau yn y cyfnod hwn gan ei bod yn Basg.

Mynnodd KP fod LIC yn hyderus eu bod wedi rhoi cymaint o amser ag y gallant ei ganiatáu i'r adborth cychwynnol hwn o ystyried yr amserlen y maen nhw'n gweithio iddi. Atgoffodd yr aelodau y bydd yr ymgynghoriad llawn ar agor tan ganol Mai.

Awgrymodd LB ei bod yn ymddangos nad yw rhai Cyfarwyddwyr Addysg wedi anfon y Fframwaith i Glercod CYSAGau i'w anfon ymlaen i aelodau'r CYSAG. O ystyried nad oedd CCYSAGauC wedi derbyn copi o'r Fframwaith yn swyddogol, esboniodd LJ nad oedd CCYSAGauC mewn sefyllfa i'w anfon i Glercod CYSAG. Awgrymodd LJ y gallai'r aelodau oedd yn bresennol ofyn i'w Clerc CYSAG ofyn i'w Hadran Addysg am gopi y gellir ei ddosbarth i'r aelodau CYSAG.

